Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc

8 Gorffennaf 2020

Ym mis Mawrth 2020, cyflwynwyd y cyfyngiadau symud yng Nghymru mewn ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19. Fel Pwyllgor, gwnaethom gyhoeddi'n bwriad i edrych yn ofalus ar y modd y mae COVID-19, a'r mesurau a gyflwynwyd i'w reoli, wedi effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r adroddiad interim hwn yn amlinellu ein gwaith hyd yma. Ei nod yw darparu gwybodaeth ar gyfer dadl y Senedd ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc a gaiff ei chynnal ar 15 Gorffennaf 2020.

**1.** Rydym yn cydnabod ei bod yn ymddangos bod y feirws yn effeithio llai ar blant a phobl ifanc nag oedolion ond, er hynny, nid oes fawr o amheuaeth fod effeithiau ehangach Covid-19 - a'r mesurau a gymerwyd i'w reoli - wedi effeithio cryn dipyn ar eu bywydau. Ein nod wrth ymgymryd â'r gwaith craffu hwn yw trafod yr effeithiau hyn a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â nhw, gan wneud hynny mor gyflym ac effeithiol ag y bo modd.

**2.** Fel Pwyllgor, rydym yn awyddus i sicrhau nad yw hawliau plant yn cael eu diystyru yn ystod y broses o reoli'r pandemig hwn, nac yn ystod ein gwaith craffu yn y Senedd. Mewn sesiwn Bwyllgor yn ddiweddar, dywedodd pediatregydd blaenllaw wrthym:

> "What they have been affected by quite greatly is, if I could call it, collateral damage—their schools have been closed, their clubs have been shut, they can't socialise. All those things have affected children, and they're very anxious, because there's a lot of worry about

coronavirus, which they're hearing about—their grandparents might have died, or they're hearing that thousands of people have died."

**3.** A derbyn hyn, ac o gofio ein bod yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru, a'r holl gyrff cyhoeddus cysylltiedig, roi blaenoriaeth glir i'r gwaith o reoli effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc, rydym o'r farn y dylai holl Aelodau o'r Senedd gael cyfle i drafod y materion hyn cyn toriad yr haf. Mae wynebu'r cam nesaf yn y gwaith o reoli'r pandemig gan roi lle blaenllaw i hawliau plant yn flaenoriaeth bwysig i ni, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod hynny'n digwydd.

## Ein dull o weithredu

**4.** Er mwyn sicrhau bod ein gwaith craffu'n cyfrannu mewn modd amserol ac ystyrlon at ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig, rydym wedi bod yn gohebu'n rheolaidd â Gweinidogion Cymru. Rydym wedi cyhoeddi llythyrau, yn hytrach na gosod adroddiadau, i sicrhau bod ein gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym ac mor effeithiol â phosibl. Mae'r ohebiaeth wedi'i hatodi i'r adroddiad hwn.

**5.** Mae'r amser a oedd ar gael inni yn amserlen y Pwyllgor wedi'i gyfyngu oherwydd y mesurau iechyd cyhoeddus sydd ar waith. Yn ogystal â chlywed gan y Gweinidog Addysg (ar 19 Mawrth, 28 Ebrill a 7 Gorffennaf) a'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd (ar 5 Mai), penderfynoodd y Pwyllgor roi blaenoriaeth i'r meysydd yn ein sesiynau gyda rhanddeiliaid:

- cymorth i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed (18 Mai);
- hybu iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc (9 Mehefin);
- cymorth i'r sector addysg uwch ac addysg bellach (23 Mehefin).

**6.** Yn dilyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Gorffennaf, byddwn yn ystyried y camau nesaf yn ein gwaith o graffu ar effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc a byddwn, maes o law, yn cyhoeddi'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud. Bydd ein camau nesaf hefyd yn seiliedig ar y canlynol:

- ymatebion i'n cais am sylwadau (gan gynnwys fersiwn addas i blant), a fydd yn parhau i gael ei gyhoeddi a'i ddadansoddi;
- sesiynau rydym wedi'u cynnal gyda chynrychiolwyr Voices from Care[1] a Race Council Cymru;

[1] Caiff nodyn o'r cyfarfod hwn ei gyhoeddi maes o law ar dudalen ymchwiliad COVID-19 y Pwyllgor.

- gwybodaeth a gaiff ei chasglu gan ein tîm ymgysylltu â'r cyhoedd am effaith Covid-19 ar **blant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig**.[2]

## Atodiadau ategol

- Atodiad A – Llythyr gan y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn dilyn sesiynau craffu ar 28 Ebrill a 5 Mai gyda'r Gweinidog Addysg a'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (anfonwyd 12 Mai 2020).
- Atodiad B – Ymateb gan y Gweinidog Addysg i lythyr y Pwyllgor ar 12 Mai (cafwyd 4 Mehefin 2020).
- Atodiad C – Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lythyr y Pwyllgor ar 12 Mai (cafwyd 8 Mehefin 2020).
- Atodiad D – Llythyr gan y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn dilyn y sesiwn graffu ar 18 Mai ynghylch effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc (anfonwyd 27 Mai 2020).
- Atodiad E – Ymateb gan Lywodraeth Cymru i lythyr y Pwyllgor ar 27 Mai (cafwyd 30 Mehefin 2020).
- Atodiad F – Llythyr gan y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn dilyn y sesiwn graffu ar 9 Mehefin ynghylch effaith Covid-19 ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc (anfonwyd 3 Gorffennaf 2020).
- Disgwylir ymateb i Atodiad F maes o law gan Lywodraeth Cymru.
- Codwyd y materion allweddol a drafodwyd yn ystod sesiwn y Pwyllgor ar addysg bellach ac Addysg uwch ar 23 Mehefin ar lafar yn y sesiwn gyda'r Gweinidog Addysg ar 7 Gorffennaf.
- Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn dilyn ei sesiwn gyda'r Gweinidog Addysg ar 7 Gorffennaf - bydd y llythyr hwn hefyd yn cynnwys pwyntiau a gododd o'r sesiwn ar 23 Mehefin ar addysg bellach ac addysg uwch.

---

[2] Mae nodiadau'n crynhoi'r casgliadau ar gael ar dudalen ymchwiliad COVID-19 y Pwyllgor.

## Atodiad A - Llythyr gan y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn dilyn y sesiynau craffu ar 28 Ebrill a 5 Mai gyda'r Gweinidog Addysg a'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (anfonwyd 12 Mai 2020)

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad | Date: 12 Mai 2020

Pwnc | Subject: **Gwaith craffu'r Pwyllgor PPIA ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc**

Annwyl Weinidogion,

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 28 Ebrill ac ar 5 Mai i ateb ein cwestiynau am y camau a gymerwyd gennych hyd yma i reoli effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc.

Mae'r Atodiad i'r llythyr hwn yn tynnu sylw at y meysydd yr ydym yn gofyn am fanylion pellach a/neu sicrwydd yn eu cylch ar yr adeg hon yn y pandemig. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r materion a ystyrir yn bwysig gennym; yn hytrach, ein bwriad yw rhoi adborth i Lywodraeth Cymru, ar fyrder, ar y meysydd lle, yn ein barn ni, y mae angen rhoi mwy o sylw. Fe'i hysgrifennwyd yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd ar 11 Mai 2020.

Bydd ein gwaith craffu ar y camau sy'n cael eu cymryd i reoli effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc yn parhau dros yr wythnosau i ddod. Gan mai nifer gyfyngedig o gyfarfodydd cyhoeddus sydd ar gael inni ar hyn o bryd, bydd ein sesiynau gyda rhanddeiliaid yn blaenoriaethu'r meysydd a ganlyn:

- cymorth i blant agored i niwed (dydd Llun 18 Mai);
- iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc (dydd Mawrth 9 Mehefin);
- cymorth i sector addysg uwch ac addysg bellach (dydd Mawrth 23 Mehefin).

Rydym hefyd wedi neilltuo un sesiwn (dydd Mawrth 7 Gorffennaf) ar gyfer trafod unrhyw themâu clir sy'n codi o'n galwad dreigl am farn.

Rydym yn cydnabod ei bod yn ymddangos bod plant a phobl ifanc yn llai tueddol i gael y feirws nag oedolion ar hyn o bryd, ond o'r braidd y gellir amau nad yw Covid-19 yn ehangach- na'r camau a gymerwyd i'w reoli - wedi cael effaith sylweddol ar eu bywydau. Ein nod wrth gynnal y gwaith

craffu hwn yw trafod yr effeithiau hyn a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy mor gyflym ac effeithiol ag y bo modd. Byddwn yn rhannu â chi yn rheolaidd y canfyddiadau a'r safbwyntiau sy'n deillio o'r dystiolaeth sy'n dod i law.

Cofion cynnes,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**ATODIAD**

## 1. Plant agored i niwed

Ar 1 Mai cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **ddatganiad ysgrifenedig** yn manylu ar y camau a gymerwyd i gefnogi plant a phobl ifanc a'u cadw'n ddiogel.

Er ein bod yn croesawu'r ystod o gamau a amlinellir yn y datganiad i gefnogi plant a phobl ifanc, rydym yn parhau i bryderu yn benodol am welededd y plant mwyaf agored i niwed a'r gefnogaeth sydd ar gael ar eu cyfer. Ar hyn o bryd, nifer gymharol fach o blant yr ystyrir eu bod yn agored i newid sy'n mynychu canolfannau ac ysgolion, ac mae hynny'n cyfyngu ar allu'r system addysg i gyflawni ei rôl ddiogelu arferol. Gan hynny, rydym yn croesawu cyfeiriad y Gweinidog Addysg at y dull trawslywodraethol a arferwyd hyd yma ac yn credu bod hyn yn hanfodol os ydym am osgoi colli materion pwysig (a allai fod yn ddifrifol).[1]

Wrth ymateb i'n pryderon ynghylch cynnal cysylltiad â phlant agored i niwed a'u teuluoedd a'u cefnogi, dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "…we've now got 890 vulnerable children attending school settings, and that's the highest number that we've had at all since the opening of the scheme. But it's still only a tiny drop in the ocean. But it's very good, and it is progress that the numbers attending are now going up.
>
> But, of course, there are a lot of children who are not attending school and the social services are not necessarily seeing. There has been a drop in safeguarding referrals to social services. Those numbers are now beginning to go up, but there certainly was a significant drop, which is a great deal of concern. One local authority, in fact, reported

[1] Cofnod y Trafodion, **paragraff 39**, 28 Ebrill 2020.

a drop of 27 per cent in terms of safeguarding referrals compared to this time last year."[2]

**Credwn fod angen darparu manylion pellach yn gyhoeddus i ddangos dull cadarn o nodi a chefnogi ein plant a'n pobl ifanc fwyaf agored i niwed, yn enwedig yn ystod unrhyw gyfnod pan fydd ysgolion a lleoliadau addysg eraill ar gau i'r mwyafrif. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â'r plant hynny a allai fod yn agored i niwed ond sydd heb ymwneud â gwasanaethau statudol. Rydym wedi blaenoriaethu cymorth i blant agored i niwed ar gyfer ein sesiwn dystiolaeth gyhoeddus gyntaf gyda rhanddeiliaid ar 18 Mai a byddwn yn ysgrifennu atoch maes o law gyda'n canfyddiadau.**

**Byddem hefyd yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf am y diffiniad ehangach, mwy hyblyg o blant agored i niwed y nododd y Dirprwy Weinidog y byddai'n dilyn ar ôl y sesiwn ar 5 Mai.[3]**

## 2. Anghenion addysgol arbennig ac addysg heblaw yn yr ysgol

Cydnabu'r Gweinidog Addysg yr her o gynnal darpariaeth i'r rhai sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) tra bo ysgolion ar gau yn gyffredinol.[4] **Byddem yn croesawu manylion pellach am y trefniadau penodol sy'n cael eu rhoi ar waith ar gyfer dysgu parhaus disgyblion AAA o ystyried:**

- **gallant fod â chyflwr corfforol sy'n golygu, er eu bod yn agored i niwed ac y dylen nhw fod â hawl i fynd i'r ysgol, na allant ar sail feddygol;**
- **mae dysgu o bell yn debygol o fod yn anos iddyn nhw nag y mae i ddisgyblion eraill gan eu bod yn dibynnu mwy ar addysgu un i un a/neu wyneb yn wyneb.**

Mae Deddf Coronavirus 2020 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru lacio dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol ac ysgolion dros dro. **Byddem yn croesawu:**

- **amlinelliad o farn Llywodraeth Cymru ynghylch a yw'n rhagweld y bydd angen defnyddio'r pwerau hyn mewn ymateb i anallu awdurdodau lleol ac ysgolion i barhau i wneud darpariaeth, yn enwedig mewn perthynas â threfniadau a bennir mewn datganiadau AAA, yn ymarferol;**
- **os felly, amlinelliad o'r mesurau cadw cydbwysedd a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod unrhyw gamau i lacio dyletswyddau i wneud darpariaeth yn digwydd mewn ffordd gymesur nad yw'n lleihau pwysigrwydd disgyblion AAA yn parhau â'u haddysg.**

Hefyd yn ein sesiwn ar 28 Ebrill, soniwyd yn gryno am drefniadau ar gyfer darparu ar gyfer y rhai sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (EOTAS).[5] **Byddem yn croesawu amlinelliad o'r**

---

[2] Cofnod y Trafodion, paragraffau 78-79, 5 Mai 2020.
[3] Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 5 Mai 2020.
[4] Cofnod y Trafodion, paragraffau 41-42, 28 Ebrill 2020.
[5] Cofnod y Trafodion, paragraff 46, 28 Ebrill 2020.

**trefniadau sydd ar waith ledled Cymru ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, a'r camau sydd ar waith i fonitro'r ddarpariaeth a mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaeth ynddi.**

## 3. Iechyd meddwl a llesiant

Mae iechyd meddwl a llesiant ein plant a'n pobl ifanc yn flaenoriaeth allweddol i'n gwaith pwyllgor. Er ein bod wedi oedi'r gwaith dilynol ar ein hadroddiad Cadernid Meddwl fel y gall gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio eu hymdrechion ar reoli effaith Covid-19, credwn fod camau i gefnogi iechyd meddwl a llesiant ein plant yn bwysicach nawr nag erioed.

**I'r perwyl hwn, rydym wedi blaenoriaethu cymorth iechyd meddwl, iechyd corfforol a llesiant ein plant a'n pobl ifanc ar gyfer ein hail sesiwn dystiolaeth gyhoeddus gyda rhanddeiliaid ar 9 Mehefin, a byddwn yn ysgrifennu atoch maes o law gyda'n canfyddiadau.**

## 4. Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae barn ein Pwyllgor am bwysigrwydd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi cael ei chofnodi'n dda, a gwelwyd hyn yn ein hymchwiliad diweddar i hawliau plant. Er inni ohirio cyhoeddi ein hadroddiad fel y gall gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio eu hymdrechion ar reoli effaith Covid-19, credwn ei bod yn hanfodol asesu effaith y mesurau cyfredol i reoli Covid-19 ar hawliau plant.

Rydym yn cydnabod bod pasio'r ddeddfwriaeth frys ar fyrder wedi cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i gynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar yr adeg y ceisiodd gydsyniad deddfwriaethol y Cynulliad, fel y'i galwyd bryd hynny. Fodd bynnag, mae digon o amser wedi mynd heibio bellach i Lywodraeth Cymru allu cynnal asesiad o effaith *pob un* o'r camau a gymerwyd i reoli Covid-19 ar blant - nid y  penderfyniadau hynny yn unig sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwasanaethau plant. **Rydym yn croesawu cadarnhad swyddogion fod "cyfres lawn"[6] o asesiadau effaith yn cael eu paratoi ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr asesiadau hyn - gan gynnwys Asesiadau o'r Effaith ar Blant -ar gael i'r cyhoedd cyn gynted ag y bo modd.**

## 5. Gofal plant

Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ailgyflwyno'r cynnig cyllid gofal plant i gefnogi cynllun cymorth gofal plant y coronafeirws, gan alluogi gweithwyr hanfodol a theuluoedd â phlant agored i niwed i gael mynediad am ddim i ofal ar gyfer plant rhwng 0 a 5 oed. Serch hynny, yn ein sesiwn ar 5 Mai, trafodwyd y sefyllfa gyllido, sy'n gymhleth i ddarparwyr gofal plant ar hyn o bryd, a thrafodwyd y risgiau y mae'r achosion o Covid-19 a'r camau a gymerwyd i'w reoli yn eu peri i hyfywedd y sector. Nodwn sylw'r Dirprwy Weinidog fod yr effaith ar y sector yn

[6] Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 5 Mai 2020.

peri pryder ac rydym yn croesawu ei chadarnhad bod camau'n cael eu cymryd i geisio datrys yr heriau cyfredol.[7]

**Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi, fel mater o flaenoriaeth, fanylion ynghylch sut y bydd trefniadau cyllido yn cael eu rheoli i sicrhau na fydd rhai darparwyr gofal plant yn methu â chael gafael ar gymorth.**

## 6. Addysg uwch

Nodwn datganiad ysgrifenedig y Gweinidog Addysg a'i datganiad i'r wasg ar 4 Mai lle y rhoddir rhagor o fanylion am bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg uwch.

**Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am:**

- **drefniadau cynnal a chadw ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf (2020/21) i'r myfyrwyr hynny a fydd yn gorfod dysgu o bell ac a fyddai, o dan y rheolau presennol, yn gostwng i lefel y cymorth a ddarperir i fyfyrwyr sy'n "byw gyda'u rhieni";**
- **unrhyw asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y mae newidiadau sylweddol i addysgu a llety a wnaed gan brifysgolion a darparwyr llety preifat wedi'i chael ar hawliau defnyddwyr a hawliau cyfreithiol myfyrwyr, ac unrhyw gamau a gymerwyd i helpu myfyrwyr i ddeall eu hawliau.**

Rydym yn cydnabod cydnabyddiaeth y Gweinidog yn ei datganiad ar 4 Mai fod "effaith ariannol yr argyfwng ar brifysgolion yn sylweddol". Credwn fod gan hyn y potensial i gael effaith hirdymor ddifrifol a niweidiol ar y sector pwysig hwn. Rydym yn rhagweld y bydd angen cymorth pellach gan y Llywodraeth, ond rydym yn cydnabod y bydd angen ar gyllidebau datganoledig gymorth ehangach gan Drysorlys Ei Mawrhydi. **Byddem yn croesawu:**

- **y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed hyd yma, a'r gwaith y bwriedir ei wneud, o fewn Llywodraeth Cymru a rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, i nodi opsiynau ar gyfer cymorth ariannol i'r sector;**
- **arwydd o bryd mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn gallu darparu eglurder ynghylch canlyniadau ar gyfer addysg ôl-16 a dyraniadau cyllid CCAUC ar gyfer 2020-21.**

Defnyddir y wybodaeth hon i lywio ein trydedd sesiwn dystiolaeth gyhoeddus gyda rhanddeiliaid ar 23 Mehefin, a neilltuwyd gennym i roi blaenoriaeth i effaith Covid-19 ar addysg uwch ac addysg bellach.

## 7. Dilyniant dysgu

Rydym yn croesawu'r camau y mae ysgolion wedi eu cymryd hyd yma gan i sicrhau dilyniant dysgu ar gyfer eu disgyblion. Serch hynny, mae'n anochel bod yr heriau a berir gan y mesurau

[7] Cofnod y Trafodion, paragraff 137, 5 Mai 2020.

angenrheidiol i reoli Covid-19 wedi cael effaith ar addysg ein plant a'n pobl ifanc. **Byddem yn arbennig o ddiolchgar am amlinelliad o'r camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i fonitro/rhoi sylw i'r canlynol:**

- **y trefniadau sydd ar waith i gynorthwyo rhieni/gwarcheidwaid i addysgu gartref, gan gynnwys camau a gymerwyd i sicrhau bod pob rhiant sydd wedi gwahanu yn cael ei hysbysu/ei gefnogi'n llawn;**
- **camau a gymerwyd i sicrhau nad yw plant yn llithro trwy'r rhwyd o ran ymgysylltu ag addysg, a bod ysgolion yn gweld fel mae eu disgyblion yn gwneud;**
- **y trefniadau sydd ar waith i fonitro unrhyw anawsterau neu anghysondebau sy'n dod i'r amlwg o ran sut y cymhwysir y meini prawf ar gyfer gweithwyr allweddol o ran derbyn plant i ysgolion (gan gynnwys faint o achosion a gafwyd lle na dderbyniwyd plant er bod rhieni am eu hanfon i'r ysgol);**
- **i ba raddau y gellir teilwra'r cymorth ar gyfer dysgu gartref - ac i ba raddau y mae yn cael ei theilwra - i ystyried gwahanol anghenion, galluoedd ac amgylchiadau dysgwyr.**

### *7.1 Darpariaeth ddigidol ac anghydraddoldebau*

Rydym yn cydnabod bod allgáu digidol yn peri risg sylweddol o waethygu'r anghydraddoldebau presennol. O'r herwydd, rydym yn croesawu'r cyllid a **gyhoeddwyd** gan y Gweinidog Addysg ar 29 Ebrill 2020 i helpu awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yn ystod y pandemig cyfredol. **Byddem yn croesawu amlinelliad o'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i:**

- **fonitro a rhoi sylw i unrhyw anghysondebau rhwng awdurdodau lleol yn eu dulliau i ddarparu cymorth i'r rhai sydd wedi'u hallgáu yn ddigidol**;
- **archwilio'r risgiau annigidol eraill (er enghraifft tai, adnoddau eraill, a gallu rhieni) a allai waethygu anghydraddoldebau yn ystod y pandemig hwn.**

### *7.2 Dychwelyd yn raddol i'r ysgol a'r pum egwyddor*

Nodwn **ddatganiad** clir y Gweinidog Addysg ar 7 Mai na fydd ysgolion yn dychwelyd i ddarpariaeth arferol ar 1 Mehefin 2020, ac y bydd y **pum egwyddor a nodwyd ar 28 Ebrill** yn arwain dull Llywodraeth Cymru ar gyfer dychwelyd yn raddol. **Credwn ei bod yn hanfodol bod negeseuon yn ymwneud â dychwelyd ein plant a'n pobl ifanc i'r ysgol yn glir ac yr ymgynghorir â'r sector ei hun cyn cyhoeddi unrhyw gynlluniau. Gofynnwn i'r Pwyllgor gael diweddariadau rheolaidd am feddwl a dull arfaethedig Llywodraeth Cymru o ran dychwelyd yn raddol i'r ysgol, ac am asesiadau a gynhelir yn erbyn y pum egwyddor.**

Credwn hefyd fod argaeledd profion yn allweddol i gynlluniau ar gyfer dychwelyd yn raddol i'r ysgol, a nodwn nifer isel yr athrawon (15) a oedd wedi cael eu profi erbyn 28 Ebrill 2020.[8] **Byddem yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddull Llywodraeth Cymru o brofi staff ysgolion fel rhan o unrhyw ddychwelyd yn raddol i'r ysgol.**

## 8. Cymwysterau galwedigaethol

Cyfeiriwyd at gymwysterau galwedigaethol yn ein sesiwn ar 28 Ebrill.[9]

Rydym yn cydnabod bod y sefyllfa mewn perthynas â chymwysterau galwedigaethol yn gymhleth am eu bod yn cael eu dyfarnu gan dros 100 o gyrff sy'n gweithio ledled y DU. Rydym hefyd yn nodi bod Cymwysterau Cymru yn egluro er mwyn sicrhau cysondeb ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau hyn, bydd yr un dull yn cael ei ddilyn ar gyfer dysgwyr yng Nghymru â'r hyn a nodir gan Ofqual yn Lloegr.

Rydym yn ymwybodol bod ymgynghoriad Ofqual ar drefniadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol wedi cau yn ddiweddar. **Byddem yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am y dull gweithredu ar gyfer Cymru unwaith y bydd Ofqual wedi nodi'r dull cyffredin, ac rydym yn awyddus i weld lefel debyg o eglurder ar gyfer dysgwyr galwedigaethol â'r rhai sy'n sefyll cymwysterau addysg gyffredinol**.

[8] Cofnod y Trafodion, paragraff 34, 28 Ebrill 2020.
[9] Cofnod y Trafodion, paragraffau 84-86, 28 Ebrill 2020.

## Atodiad B - Ymateb y Gweinidog Addysg i lythyr y Pwyllgor dyddiedig 12 Mai (cafwyd 4 Mehefin 2020)

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/KW/1709/20

Lynne Neagle AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd.
CF99 1SN.

4 Mehefin 2020

Annwyl Lynne,

Diolch i chi am eich llythyr ar 12 Mai yn gofyn am ragor o wybodaeth am y camau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd hyd yma i reoli effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc. Nodaf fod y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ysgrifennu atoch ynghylch materion a ddaw o dan ei phortffolio hi, felly bydd fy ymateb i'n rhoi sylw i'r elfennau addysg er fy mod yn gwerthfawrogi bod nifer o feysydd yn gysylltiedig.

Gwn fod yr amgylchiadau sy'n ein hwynebu yn anodd i bawb, ond rwyf yn poeni eu bod yn arbennig o heriol i'n dysgwyr mwyaf agored i niwed a mwyaf difreintiedig. Rwyf yn ymrwymo i wneud popeth posibl i gefnogi dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Y neges yn ystod rhan gynnar ein hymateb i'r pandemig hwn oedd lleihau lledaeniad y feirws ac os oedd hi'n bosibl i blant a phobl ifanc fod gartref, yna dylent fod gartref. Fel rhan o'r ymateb, gofynnwyd i leoliadau addysg barhau i ddarparu gofal i nifer gyfyngedig o blant a phobl ifanc - y rheini sy'n agored i niwed (a all gynnwys y rheini sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig) a'r rheini y mae eu rhieni neu eu gofalwyr yn hanfodol i'r ymateb i'r coronafeirws.  Roedd hi'n bwysig, ac mae hi'n dal yn bwysig, sicrhau bod pob lleoliad addysg yn llefydd diogel i blant a phobl ifanc.

Rydym yn parhau i ofyn i awdurdodau lleol ystyried anghenion yr holl blant a phobl ifanc sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig a chynnal asesiad risg sy'n ystyried safbwyntiau rhieni/gofalwyr a, phan fo'n briodol, sy'n defnyddio dull amlasiantaeth.  Dylai'r asesiad risg ganolbwyntio ar bennu a fydd modd diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig gartref drwy ddarparu cymorth o bell, ac a fyddent yn fwy diogel gartref nag mewn lleoliad addysg.  Rydym yn datblygu canllawiau ar asesiadau risg drwy ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac rydym yn gobeithio eu cyhoeddi cyn bo hir.

Diogelwch yw'r brif flaenoriaeth yn yr ysgolion a'r lleoliadau gofal plant hynny sydd ar agor. Fodd bynnag, mae gan rai dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol anabledd corfforol neu gyflyrau meddygol isorweddol sydd efallai'n golygu mai'r cartref yw'r lle mwyaf diogel iddynt. Bydd darpariaeth i gefnogi anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yr holl ddysgwyr, boed nhw yn yr ysgol neu gartref, yn parhau i fod yn seiliedig ar asesiad o'r angen. Mae ffyrdd eraill o ddarparu'r gefnogaeth hon, fel cyswllt dros y we, yn cael eu hybu, ac mae adnoddau i gefnogi hyn yn cael eu datblygu ar draws Cymru.

Gan feddwl am Ddeddf y Coronafeirws 2020, rydym wedi bod yn ystyried pa rai, os o gwbl, o'r darpariaethau statudol sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ag addysg a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, ysgolion a chyrff llywodraethu y gallai fod angen eu haddasu dros dro o ganlyniad i effeithiau'r feirws.

Rwyf yn gweithio i sefydlu'r ffordd fwyaf briodol o addasu'r dyletswyddau hyn, yn enwedig o ran yr amserlenni statudol a nodir o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 a Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) (Cymru) 2002. Bydd yr addasiadau hyn yn cael eu gwneud cyn gynted ag sy'n bosibl, naill ai drwy hysbysiad, neu drwy reoliadau i ddiwygio'r dyletswyddau a/neu'r amserlenni presennol. Ochr yn ochr â chyhoeddi hysbysiadau byddwn yn cyhoeddi canllawiau i egluro'r newidiadau. Bydd y canllawiau hyn yn egluro'r hyn maen nhw'n ei olygu i awdurdodau lleol a'u partneriaid; dysgwyr; eu rhieni a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi.

Mae fy swyddogion hefyd wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr addysg i ddeall effaith y coronafeirws ar eu gallu i ddiwallu eu dyletswyddau statudol.

Mae darparwyr yn wynebu anawsterau sylweddol o ran diwallu anghenion disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn enwedig mewn perthynas â threfnu'r ddarpariaeth a bennir mewn datganiad a nifer o'r amserlenni statudol, fel adolygiadau blynyddol. Rwyf hefyd yr un mor ymwybodol o anghenion y grŵp hwn o ddysgwyr agored i niwed a phwysigrwydd parhau gydag addysg a chefnogaeth.

O'r herwydd, mae fy swyddogion yn gweithio gyda grŵp o randdeiliaid sydd wedi cael eu targedu. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau hawliau plant, y Comisiynydd Plant a mudiadau perthnasol yn y trydydd sector. Ein nod yw deall effaith y newidiadau cyfredol, fel newid diben ysgolion, ac asesu effaith debygol unrhyw newidiadau posibl yn y dyfodol i'r dyletswyddau statudol sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ar ddysgwyr ac ar eu teuluoedd.

Rydym yn gweithio i ddod o hyd i'r cydbwysedd iawn er mwyn ystyried pryderon awdurdodau lleol a'u partneriaid; gan gydbwyso'r rhain yn erbyn anghenion a hawliau'r grŵp hwn o ddysgwyr agored i niwed. Nid ydym yn bwriadu datgymhwyso unrhyw rai o'r dyletswyddau sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig; ond rydym yn ystyried addasu rhai o'r dyletswyddau i fod yn rhai 'ymdrechion rhesymol' yn hytrach na 'dyletswydd absoliwt'. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cefnogi gan ganllawiau a fydd yn nodi'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gan ddarparwyr; a'r hyn gall dysgwyr a'u teuluoedd ei ddisgwyl.

Bwriedir i'r addasiadau roi mwy o hyblygrwydd a chaniatáu darparu cefnogaeth neu wasanaethau eraill, sydd efallai'n wahanol i'r hyn a nodir mewn datganiad, ond sy'n helpu i barhau i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Bydd effaith unrhyw addasiadau a wnawn yn dal i gael ei monitro, drwy ymgysylltu â darparwyr a'r rhanddeiliaid a nodir uchod. Fydd dim newid i'r llwybr ar gyfer cwyno na'r gallu i apelio i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

Er bod ysgolion yn dal ar agor i blant gweithwyr hanfodol ac i blant agored i niwed, ac er eu bod yn parhau i gefnogi addysg a dysgu disgyblion o bell, mae darparu addysg o ddydd i ddydd yn dra gwahanol nawr, ac mae angen i ni gydnabod hynny. Mae hefyd llu o faterion gweinyddol y mae hi'n anoddach i awdurdodau lleol ac i ysgolion eu gwneud ar hyn o bryd.

Yn dilyn trafodaethau gydag awdurdodau lleol rydym wedi dod o hyd i rai meysydd lle rydym yn teimlo y bydd angen i ni addasu neu ddatgymhwyso rhai gofynion dros dro ac rwyf wedi cynnwys manylion y rhain yn y llythyr hwn (gweler Atodiad 1). Rydym hefyd yn ystyried y trefniadau y bydd eu hangen, gan gynnwys unrhyw newidiadau deddfwriaethol eraill, i gefnogi cynyddu gweithrediadau ysgolion.

Yn y tymor mwy canolig, byddaf hefyd yn edrych ar sut byddai modd hwyluso pontio i'r cwricwlwm newydd drwy gael gwared â rhai o'r gofynion sy'n fwy rhagnodol neu weinyddol oddi ar ysgolion a chyrff llywodraethu, er mwyn eu galluogi i ddatblygu eu cwricwlwm newydd. Bydd hyn yn golygu bod modd canolbwyntio mwy ar iechyd a lles a bydd hyn yn arbennig o bwysig i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr drwy'r cyfnod anarferol hwn.

Caf ar ddeall fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am bob hysbysiad o'r fath a gyhoeddir o dan y Ddeddf, a byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod pan ddefnyddir y pwerau hyn.

Yn ystod y cyfnod hwn, gyda lleoliadau addysg ddim ond ar agor i nifer gyfyngedig o ddysgwyr, ein nod yw lleihau'r effaith ar ddysgu, ar gynnydd ac ar les dysgwyr. Bydd ein cynllun Parhad Dysgu 'Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu' yn cefnogi ysgolion ac athrawon i arwain y dysgu parhaus ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae sicrhau bod pob un dysgwr yn cael ei "gynnwys" yn un o bedair blaenoriaeth drawsbynciol allweddol sy'n berthnasol i bob agwedd ar ein cynllun Parhad Dysgu ac mae'n ceisio sicrhau bod yr holl bethau sydd i'w cyflawni yn y cynllun yn canolbwyntio'n glir ar degwch ac ar gynhwysiant.

I gefnogi'r holl blant a phobl ifanc hynny sy'n dysgu gartref, mae ysgolion a cholegau yn darparu llawer iawn o adnoddau addysgol ar-lein. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae amrywiaeth o offer a dulliau digidol ar gael ar draws y system addysg i helpu i sicrhau parhad dysgu i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys adnoddau sydd ar gael drwy blatfform dysgu Cymru, Hwb.

Fel rhan o 'Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu' rydym yn trefnu cefnogaeth ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol ac sydd fel rheol yn mynychu ysgolion a gynhelir. Os nad oes darpariaeth gyfredol mewn lle gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol, rydym wedi sefydlu ateb technegol sy'n golygu bod awdurdodau lleol/ysgolion yn gallu addasu dyfeisiau sydd eisoes ar gael mewn ysgolion.

Pan fydd angen, mae awdurdodau lleol hefyd yn gallu cael gafael ar wasanaeth sy'n cael ei gaffael yn ganolog er mwyn rhoi cysylltiad symudol (MiFi) i ddysgwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. Bydd yr holl gostau am y trwyddedau ar gyfer y dyfeisiau sydd wedi'u haddasu a'r costau MiFi yn cael eu talu tra bydd yr ysgolion ar gau o ddyraniad awdurdodau lleol o gronfa Cyfalaf Technoleg Addysg Hwb. Fel rhan o gyllid Technoleg Addysg Hwb, bydd awdurdodau lleol hefyd yn gallu cyfnewid y dyfeisiau hyn am ddyfeisiau newydd o'u dyraniad nhw o'r cyllid.

Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn y bydd dychwelyd yn raddol i ddysgu amser llawn yn yr ysgol yn hollbwysig i'n dysgwyr agored i niwed a difreintiedig – yn gyntaf o ran eu lles, ac wedyn o ran eu dysgu. Rydym eisoes yn gweithio gyda'n partneriaid a gydag arbenigwyr yn y maes i ystyried sut byddwn yn gweithredu'r cam hwn.

Drwy fod yn gynhwysol ac yn deg gyda'r hyn sydd i'w gyflawni o'r Cynllun Parhad Dysgu – boed hynny o ran mynd i'r afael ag eithrio digidol, adnoddau dysgu, canllawiau i rieni neu ganllawiau ar iechyd a lles – fy nod yw sicrhau bod y gefnogaeth orau bosibl ar gael i'r holl ddysgwyr, nawr a phan fyddwn yn symud i ddychwelyd yn raddol i ddysgu amser llawn yn yr ysgol.

Wrth ystyried darpariaeth i'r rheini sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, gallaf gadarnhau bod dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol wedi cael eu nodi fel grŵp penodol i'w ystyried yn ein Cynllun Parhad Dysgu.

Cyn bo hir byddwn yn cyhoeddi canllawiau i rieni disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol a disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol er mwyn darparu gwybodaeth sydd wedi cael ei dylunio i helpu rhieni'r disgyblion hyn i Gadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu. Bydd y canllawiau yn darparu dolenni at adnoddau ac at sefydliadau sy'n gallu cefnogi disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol, disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'u rhieni.

Fel rhan o Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu, mae trefniadau'n cael eu gwneud i awdurdodau lleol lenwi arolwg sy'n ymwneud â pharhad dysgu a lles plant a phobl ifanc agored i niwed a difreintiedig – gan gynnwys disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol. Bydd yr arolwg yn rhoi gwybodaeth am ddisgyblion agored i niwed a difreintiedig, gan gynnwys trefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi eu dysgu a'u lles. Bydd yr wybodaeth a gawn yn siapio ein camau nesaf i sicrhau parhad dysgu, yn ystod y cyfnod hwn o ddysgu o bell a phan fydd lleoliadau addysg yn dechrau cynyddu eu gweithrediadau.

Dylai pob darparwr addysg fod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod disgyblion yn gallu parhau i ddysgu ac, yn gyffredinol, bydd y trefniadau hyn yn cynnwys dysgu ar-lein neu anfon pecynnau o waith at ddisgyblion.

Mae awdurdodau lleol wedi fy sicrhau eu bod wedi asesu risg yr holl blant sy'n cael cefnogaeth gweithiwr cymdeithasol i adnabod y plant a fydd yn elwa fwyaf o gael lle diogel i fynd. Rwyf hefyd wedi dweud wrth awdurdodau lleol eu bod yn cael cynnig lleoedd i ddisgyblion maen nhw'n meddwl sy'n agored i niwed oherwydd bod eu darparwr addysg neu eu swyddog cymorth i deuluoedd wedi rhoi gwybod iddynt am hyn.

Efallai fod nifer o blant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol yn agored i niwed ac yn wynebu risgiau. Mae diogelwch a lles ein dysgwyr yn bwysicach na dim yn ystod y cyfnod heriol hwn, ble bynnag mae eu dysgu'n digwydd. Rydym wedi datblygu'r diffiniad o blant agored i niwed sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, a'n barn ni yw y byddai plant sy'n byw gyda'r risg fwyaf yn elwa o amser i ffwrdd oddi wrth amgylchedd eu cartref a chael mynd i le diogel.

Mae hyn yn cynnwys lle diogel i ddisgyblion sy'n cael eu cefnogi gan weithiwr cymdeithasol, a disgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig.

Gyda golwg ar gefnogaeth i addysg uwch, mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r pecyn cymorth mwyaf hael i fyfyrwyr yn y DU. Rydym wedi cynnal y cymorth hwn, drwy grantiau a benthyciadau ymlaen llaw, yn ystod y cyfnod hwn. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyfreithiol i bennu lleoliad myfyrwyr israddedig amser llawn ac mae'r cymorth yn cael ei dalu yn ôl y lleoliad, gan fod hyn yn adlewyrchu'r costau byw disgwyliedig.

Mae gan fyfyrwyr israddedig amser llawn sy'n 'byw gartref' hawl i lai o gymorth cynhaliaeth na'r rheini sy'n byw 'oddi cartref, yn astudio yn rhywle arall' neu'n 'byw oddi cartref, yn astudio yn Llundain'. Mae faint o grant y mae gan fyfyriwr hawl iddo yn cynyddu wrth i incwm yr aelwyd ddisgyn. Nid oes cynnig i newid y polisi hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd myfyrwyr eisiau bod yn sicr ynghylch eu lleoliad dros y flwyddyn

academaidd nesaf, gan osgoi contractau llety diangen, a byddant yn disgwyl i brifysgolion yng Nghymru ddarparu'r eglurder hwnnw.

Nid yw cymorth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser ac i fyfyrwyr ôl-raddedig yn amrywio yn ôl lleoliad.

Roedd prifysgolion yng Nghymru wedi ymateb yn gyflym i fygythiad Covid-19 drwy symud eu darpariaeth ar-lein, ac roedd nifer o fyfyrwyr wedi dychwelyd adref. Mae sefydliadau sy'n cael eu rheoleiddio'n gyfrifol am sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth yn dderbyniol. Mae myfyrwyr yn cael cysylltu â'u Prifysgol a Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol os nad ydynt yn fodlon.

Caiff contractau llety eu llunio rhwng darparwr y llety a'r myfyriwr, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i denantiaid yn y sector preifat o ganlyniad i Covid-19. Nid ydym wedi cynnal dadansoddiad o unrhyw effaith ar hawliau cyfreithiol myfyrwyr.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio'n agos gyda CCAUC i edrych ar ddewisiadau ar gyfer unrhyw gymorth ariannol ychwanegol posibl y gallai Llywodraeth Cymru ei ddarparu er mwyn helpu i sefydlogi'r sector cyn y flwyddyn academaidd nesaf.  Fodd bynnag, mae hi'n amlwg bod graddfa'r cymorth ariannol sydd ei angen i sicrhau sefydlogrwydd yn y sector prifysgolion y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael yng nghyllidebau llywodraeth ddatganoledig, ac rydym yn dal wedi ymrwymo i weithio gyda phob llywodraeth yn y DU a Thrysorlys EM ar setliad sy'n fwy cynhwysfawr.

Rwyf hefyd yn gweithio gyda Gweinidogion o'r pedair gwlad ar dasglu Ymchwil ac Arloesi er mwyn rhoi sylw i effaith Covid-19 ar y sylfaen ymchwil.

Byddwch yn gwybod bod trafodaethau'n parhau ar ymrwymiadau adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21.  Rwyf wedi darparu grant blynyddol dangosol i CCAUC o bron i £172m, sy'n uwch na dyraniad y llynedd.  Fel sy'n cael ei egluro yn fy llythyr cyllido, gyda'r angen i ganolbwyntio ymdrechion ac adnoddau cyfyngedig y Llywodraeth ar ein hymateb i'r pandemig, nid wyf wedi gallu cyhoeddi fy llythyr cylch gwaith arferol ar hyn o bryd.

Fy mlaenoriaeth ddi-syfl dros y cyfnod hwn fu diogelwch a lles ein holl ddysgwyr a staff mewn lleoliadau addysg. Bydd hyn yn dal yn wir wrth i ni edrych tua'r dyfodol. Rwyf yn ddiolchgar am gefnogaeth ein partneriaid, a'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod dyrys iawn hwn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Atodiad 1

**Deddf y Coronafeirws 2020 – Meysydd posibl ar gyfer Hysbysiadau o dan Atodlen 17**

| Maes | Addasiad a Gynigir |
|---|---|
| Diffiniad o ddisgybl - Adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 | Addasu'r diffiniad: '*A person is not for the purposes of the Education Act 1996 to be treated as a pupil at a school merely because any education is provided for that person at the school on a temporary basis for reasons relating to the incidence or transmission of coronavirus.'* |
| Adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 – yn enwedig Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013 a Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) (Diwygio) 2018 | Addasu i sail ymdrechion rhesymol.<br><br>Nodi ein bod ar hyn o bryd yn gweithio drwy oblygiadau ehangach y gofynion a osodwyd o dan adran 101 ac 108 o'r Ddeddf. |
| Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998<br><br>Adran 70 (gofynion sy'n ymwneud ag addoli ar y cyd) | Addasu i sail ymdrechion rhesymol. |
| Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 – darpariaeth 45 | Addasu i sail ymdrechion rhesymol. |
| Rheoliadau adroddiad pennaeth i rieni a disgyblion sy'n oedolion (Cymru) 2011 | Addasu i sail ymdrechion rhesymol. Ac eithrio rheoliad 5 a fydd yn aros fel dyletswydd absoliwt er mwyn sicrhau na fydd dysgwyr dan anfantais. |
| Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 | Addasu i sail ymdrechion rhesymol. |
| Rheoliadau Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion (Cymru) 2011 | Datgymhwyso |
| Rheoliadau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb (Cymru) 2011 | Datgymhwyso ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019-20, rydym yn credu y gallai'r rheoliadau fod yn fwy priodol er mwyn atal y gofynion hyn dros dro ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020-21 gan nad ydym yn dymuno gosod targedau ar sail graddau sy'n cael eu hamcangyfrif |
| Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 | Addasu i sail ymdrechion rhesymol. |
| Cod Trefniadaeth Ysgolion a wnaed dan adran 38 o Ddeddf | Datgymhwyso'n cael ei ystyried |

| | |
|---|---|
| Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 | |
| Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 | Diwygiad i ymestyn y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno cynlluniau awdurdodau lleol i Weinidogion Cymru |
| Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 | Addasu i sail ymdrechion rhesymol y gofyniad i Awdurdodau lleol ddarparu cyllidebau ysgolion unigol iddynt ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. |
| Addysg (Trefniadau Cynefino ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 | Gall diwygio'r gofynion ynghylch cyfnodau cynefino er mwyn adlewyrchu bod ysgolion ar gau atal athrawon sydd newydd gymhwyso rhag diwallu'r rhain |
| Deddf Rheoliadau Addysg Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol (Cymru) 2014 | Gwneud un diwygiad i ymestyn y dyddiad cau sef 31 Awst 2020 i ddiwedd mis Rhagfyr dros dro, sef erbyn pryd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi gwybod i Weinidogion Cymru am y dyddiadau tymhorau maent yn bwriadu eu gosod ar gyfer 2022/23. |
| Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 | Diwygiadau i ddatgymhwyso rhai gofynion ac addasu rhai eraill |

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

**Atodiad C - Ymateb y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lythyr y Pwyllgor dyddiedig 12 Mai (cafwyd 8 Mehefin 2020)**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

MA/JM/1782/20

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

8 Mehefin 2020

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 12 Mai i'r Gweinidog Addysg a minnau yn dilyn ein presenoldeb yn sesiynau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ddiweddar. Rydw i'n ymwybodol bod y Gweinidog Addysg hefyd yn ymateb i'ch llythyr felly byddaf yn mynd i'r afael â'r materion sy'n dod o dan fy mhortffolio i, gan dderbyn y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ddau.

Cyn troi at y pwyntiau a godwyd yn eich llythyr, rydw i'n ymwybodol bod rhai camau y gwnes i a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gytuno i'w cymryd ar unwaith yn dilyn y cyfarfod. Rydw i wedi mynd i'r afael a'r pwyntiau rydw i'n gyfrifol amdanynt yn y nodyn sydd wedi'i atodi i'r llythyr hwn. Bydd y Gweinidog yn darparu ymateb ar wahân i'r Pwyllgor ynglŷn â'r adroddiad ar farwolaethau annisgwyl ar ôl i ni ystyried yr wybodaeth a gawn gan Uned Gyflawni'r GIG.

Mae Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant, Partneriaid yn y Trydydd Sector a'r Byrddau Diogelu rhanbarthol sy'n gweithio mewn ffyrdd arloesol i gefnogi plant a phobl ifanc ac i helpu plant sy'n wynebu risg yn ystod y cyfnod hwn. Rydyn ni wedi cael ein sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol Plant mewn cysylltiad â'r holl blant a phobl ifanc maen nhw'n eu cefnogi. Mae natur ac amlder y cyswllt sydd ganddynt â theuluoedd yn seiliedig ar asesiad risg sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd, ac fe gynhelir ymweliadau wyneb yn wyneb a/neu gyswllt dros y we fel y bo hynny'n briodol ar sail pob achos yn unigol. Yn gyffredinol, mae awdurdodau wedi nodi sefyllfa sefydlog yng nghyswllt y rhan fwyaf o'u gwasanaethau a sefydlogrwydd y gweithle.

I helpu adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'u partneriaid, fe wnaethom ni gyhoeddi Canllawiau Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ar 21 Ebrill. Yn y canllawiau hyn rydyn ni'n nodi, os teimlir bod angen gweld plentyn yn ffisegol oherwydd lefel y risg mae'r plentyn yn ei hwynebu, dylai hyn ddigwydd yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gadw pellter cymdeithasol neu gyfarpar diogelu personol lle bo hynny'n briodol. Roedd y canllawiau hefyd yn nodi y dylai ymweliadau diogelu statudol â phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant barhau i gael eu cynnal bob 10 diwrnod gwaith o leiaf. Os penderfynir, ar ôl cynnal asesiad risg, bod modd bodloni'r gofyniad hwn drwy gyswllt o bell/dros y we ar gyfer rhai plant sydd ar y Gofrestr Diogelu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Plant, rhaid i'r rheolwr gytuno â'r penderfyniad hwn a chofnodi'r rhesymeg ar gyfer hynny. Rydyn ni wedi bod yn glir y dylai risgiau pob achos gael eu hadolygu'n gyson, o leiaf unwaith yr wythnos.  Bwriad y cyngor hwn yw y dylid parhau i gael cyswllt wyneb yn wyneb â phlant sy'n wynebu risg lle bynnag y bo hynny'n bosibl, a dylai cyswllt o bell fod yn eithriad yn amodol ar asesiad risg.

Cafwyd gostyngiad nodedig yn nifer yr atgyfeiriadau diogelu oedd yn ymwneud â phlant sy'n wynebu risg ar ddechrau'r cyfnod o gyfyngiadau symud. Rydyn ni wedi cyhoeddi gwefan ar riportio pryderon ac mae Datganiad Ysgrifenedig a dau ddatganiad i'r wasg wedi cael eu cyhoeddi hefyd, er mwyn annog pawb i riportio pryderon. Ar yr un pryd, mae'r Byrddau Diogelu a'r awdurdodau lleol wedi anfon negeseuon at ymarferwyr a chyfathrebiadau sy'n delio â'r cyhoedd i annog pobl i riportio pryderon. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i roi arian i NSPCC Childline a llinell gymorth MEIC er mwyn sicrhau bod plant yn gallu siarad â rhywun os ydyn nhw'n cael eu niweidio. Mae gwybodaeth gan Benaethiaid Gwasanaethau Plant a'r Byrddau Diogelu yn ein sicrhau ni bod cyfradd yr atgyfeiriadau diogelu yng nghyswllt plant sy'n wynebu risg yn cynyddu'n raddol.

Yn Lloegr mae Llywodraeth y DU wedi gwneud newidiadau dros dro i ddeg set o reoliadau gofal cymdeithasol plant er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol a darparwyr yn ystod COVID-19, drwy Offeryn Statudol 445. Rydym yn pryderu am effaith newidiadau o'r fath ar ddiogelu ac ar hawliau plant, felly nid oes gennym unrhyw gynlluniau i ddiwygio rheoliadau yng Nghymru. Nid yw awdurdodau lleol wedi bod yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud diwygiadau i reoliadau - yn wir, o'r adborth hyd yma, mae awdurdodau lleol yn awyddus i reoli gwasanaethau o fewn yr hyblygrwydd sydd ganddynt, ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Ar 14 Mai, fe wnaethom gyhoeddi ein diffiniad wedi'i fireinio ar gyfer 'plant agored i niwed' yng nghyswllt lleoliadau addysgol neu leoliadau gofal plant (https://llyw.cymru/plant-agored-i-niwed-diogelu-y-coronafeirws).  Rydyn ni wedi nodi'r disgwyliad ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â gweithiwr cymdeithasol a phlant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig, yn ogystal â'r hyblygrwydd ychwanegol ar gyfer plant agored i niwed eraill sydd ar ffiniau gofal a chymorth, os yw'r ysgol neu'r gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn gwybod eu bod yn agored i niwed. Dylai'r ysgol a'r awdurdod lleol bennu'r disgresiwn hwn ar sail pob achos yn unigol.

Ers 11 Mai, rydyn ni wedi cyhoeddi'r ystadegau presenoldeb mewn lleoliadau addysgol yn wythnosol (https://llyw.cymru/presenoldeb-mewn-lleoliadau-awdurdod-lleol-yn-ystod-y-pandemig-coronafeirws-covid-19-11-i-15-mai-2020-html?).  Mae cynnydd cyson wedi bod yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael mynediad at ddarpariaeth mewn ysgolion. Fodd bynnag, rydyn ni'n parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i gynyddu lefelau presenoldeb plant agored i niwed mewn hybiau ac i sicrhau eu bod yn cael cymorth yn y modd mwyaf priodol yn unol â'u hanghenion.

Yn ogystal â hyn, rydyn ni wedi dechrau casglu data gan awdurdodau lleol yn wythnosol mewn cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol plant yn ystod y cyfyngiadau symud. Caiff y rhain eu hateb naill ai gan ddefnyddio ymateb goleuadau traffig neu drwy nodi a yw'r lefel wedi cynyddu, lleihau neu aros yr un fath o'i gymharu â'r wythnos neu'r flwyddyn flaenorol. Gofynnir i awdurdodau lleol ddarparu ciplun o'u gwasanaethau ar y diwrnod maen nhw'n llenwi'r ffurflen.

Wrth i ni symud ymlaen at gynyddu gweithrediad mewn ysgolion, bydd y ddarpariaeth i blant agored i niwed yn dal yn flaenoriaeth ac mae'r ystyriaethau hyn yn flaenllaw yn ein gwaith.

Mae gwasanaethau cymorth ac ymyrraeth gynnar, fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, wedi symud ymlaen yn gyflym at fodel gweithredu newydd yn dilyn y cyfyngiadau symud. Er bod rhywfaint o gymorth wyneb yn wyneb ar gael, mae gofynion cadw pellter cymdeithasol yn cyfyngu ar hyn (fel y dylai); ac mae cymorth yn cael ei ddarparu mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, cyfleusterau sgwrsio mewn grŵp, a galwadau ffôn a fideo. Mae gwasanaethau wedi bod yn arloesol o ran eu dull o sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth yn ystod y cyfnod hwn.

Rydw i'n cytuno y bydd camau i gefnogi llesiant ac iechyd meddwl ein plant yn dal yn allweddol i bob un ohonom, ac rydw i'n croesawu bwriad y Pwyllgor i barhau i ganolbwyntio ar gefnogi llesiant ac iechyd corfforol a meddyliol ein plant a'n pobl ifanc.

Nodaf fod y Pwyllgor yn bwriadu cynnal sesiwn ar gyfer rhanddeiliaid allweddol i drafod llesiant corfforol a meddyliol ar 9 Mehefin ac rydw i'n aros am ragor o ohebiaeth am eich canfyddiadau

Hoffwn sicrhau'r Pwyllgor fod yr Hawliau Plant a Phobl Ifanc a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn parhau i fod yn ganolog i'r broses gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Yng nghyswllt Bil y Coronafeirws, mae'n wir na chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o baratoi'r bil hwn, gan ystyried bod y bil wedi'i lunio gan Lywodraeth y DU a'i basio drwy Senedd y DU. Oherwydd hynny, dibynnwyd ar asesiadau effaith Llywodraeth y DU, ac roedd y prawf teulu yn un o'r rhain. Cafodd dogfen yn cynnwys crynodeb o effeithiau ei pharatoi yng nghyswllt y Bil hefyd, sydd wedi cael ei chyhoeddi ar wefan Senedd y DU (https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-01/0122/Coronavirus%20Bill%20Impact%20Assessment%20final%203.pdf).

Rydyn ni, ynghyd â Senedd y DU, wedi gorfod mynd ati'n gyflym iawn i leihau lledaeniad y feirws Covid-19 yng Nghymru. Mae Erthygl 6 y CCUHP, yr hawl i fyw, wedi bod yn flaenllaw yn ein gweithredoedd yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn.

Y mesur diogelu pwysicaf o ran hawliau plant oedd yr ymrwymiad a wnaed, a'i roi mewn cyfraith, y byddai'r rheoliadau'n cael eu hadolygu bob tair wythnos, oedd yn golygu eu bod yn cael eu hadolygu'n barhaus i bob pwrpas. Mae hyn wedi golygu bod modd nodi unrhyw effeithiau anghymesur a mynd i'r afael â nhw yn gyflym.

Wrth i ni symud ymlaen, a drwy gydol y pandemig hwn, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud yn siŵr bod gwaith sy'n cael ei wneud yn dilyn Deddf y Coronafeirws 2020 i ddechrau, yn asesu'r effaith ar hawliau plant a nodir yn y CCUHP. Rydyn ni'n disgwyl i unrhyw Reoliadau neu Gyfarwyddiadau ar gyfer Cymru a wneir o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020 fod yn amodol, i'r graddau mwyaf posibl, ar yr ystod lawn o asesiadau effaith sy'n ofynnol yng Nghymru.

Mae hefyd angen i ni gydnabod nad yw un ateb bob amser yn addas i bawb. Mae asesiadau effaith sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau ynghylch Covid-19 wedi gorfod bod yn hyblyg, gyda swyddogion yn defnyddio eu synnwyr cyffredin a'u crebwyll i bennu a yw penderfyniadau yn berthnasol i blant a phobl ifanc ac i ba raddau maen nhw'n debygol o effeithio arnynt. O ganlyniad i hyn, mae arferion ychydig yn wahanol wedi cael eu defnyddio.

Er enghraifft, un dull yn y Gyfarwyddieth Addysg oedd datblygu Asesiad Integredig trosfwaol o Effaith Covid-19 yn seiliedig ar yr holl benderfyniadau sy'n deillio o'r penderfyniad i ddechrau gwyliau'r Pasg yn gynharach. Cafodd grŵp Asesiad Effaith Integredig (AEI) ei roi

at ei gilydd, a oedd yn cynnwys penderfynwyr, a thempled a ddatblygwyd i gyfweld pob un o'r penderfynwyr. Mae cynnwys y templedi hyn yn rhan o sylfaen dystiolaeth yr AEI. Mae un arweinydd swyddogol o'r tîm Gofal Plant wedi bod yn y grŵp AEI, ond mae wedi defnyddio dull AEI trosfwaol tebyg sy'n seiliedig ar y penderfyniad i atal y gofal plant a gynigir dros dro, a blaenoriaethu darpariaeth gofal plant i blant gweithwyr allweddol a phlant agored i niwed. Mae Addysg a Gofal Plant wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd felly mae eu Hasesiadau Effaith Integredig yn debyg o ran arddull ar y cyfan.

Rydw i hefyd yn ymwybodol o'r anawsterau rydyn ni'n eu hwynebu ar hyn o bryd o ran ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ynglŷn â phenderfyniadau sydd wedi effeithio arnyn nhw yn sgil y pandemig. Roedd angen gwneud penderfyniadau'n gyflym er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel ac, felly, nid yw Erthygl 12 wedi cael ei rhoi ar waith.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, gofynnais am gynnal arolwg i fynd ati'n rhagweithiol i ofyn am farn plant a phobl ifanc am Covid-19 a'r newidiadau sydd wedi codi yn sgil y pandemig.

Datblygwyd 'Y Coronafeirws a Fi' mewn partneriaeth â Chomisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru a'r Senedd Ieuenctid, gyda mewnbwn cryf gan y plant a'r bobl ifanc eu hunain. Mae eisoes yn darparu data cyfoethog am yr hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc. Mae dros 23,700 o ymatebion wedi dod i law.

Ni yw'r cyntaf o Lywodraethau'r DU i fynd ati'n rhagweithiol i ofyn am farn plant a phobl ifanc. Drwy'r arolwg ar-lein hwn, rydyn ni'n clywed barn a safbwyntiau plant a phobl ifanc am y pandemig hwn ac yn gwrando arnynt. Bydd yr ymatebion i bob cwestiwn yn yr arolwg (sydd i gyd yn ymwneud ag Erthyglau penodol o'r CCUHP), yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth ar gyfer timau polisïau penodol yn Llywodraeth Cymru, ac yn helpu i roi sail i benderfyniadau parhaus yng nghyswllt Covid-19.

Does dim amheuaeth bod yr argyfwng hwn wedi cael effaith ar blant a phobl ifanc ac rydyn ni wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â chael cydbwysedd o ran cadw plant yn ddiogel yn erbyn effaith y cyfyngiadau symud. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, rydw i wedi cael fy sicrhau bod hawliau plant wedi bod yn uchel ar yr agenda. Mae amddiffyn hawliau plant a chefnogi plant yn ystod y cyfnod hwn wedi bod yn sbardun yn Llywodraeth Cymru, a dyna pam rydw i'n edrych ymlaen at weld y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar ei ymchwiliad i hawliau plant yng Nghymru maes o law.

Fel rhan o'n hymateb i'r feirws, rydyn ni wedi sicrhau bod amrywiaeth o gymorth ar gael i fusnesau ar draws Cymru, gan gynnwys darparwyr gofal plant. Mae ystod o gynlluniau pwrpasol ar gael ar gyfer gwahanol rannau o'r economi, ac rydyn ni'n gwerthfawrogi y gall ceisio eu deall beri dryswch. I helpu gyda hyn, rydyn ni wedi darparu canllawiau ar ba gymorth sydd ar gael i ddarparwyr gofal plant ar ein gwefan (https://llyw.cymru/cymorth-i-ddarparwyr-gofal-plant-y-coronafeirws-covid-19?)

Gan ystyried yr amrywiaeth o fodelau gweithredu ledled y sector, ni fydd pob lleoliad yn gallu cael mynediad at bob cynllun. Rydyn ni wedi bod yn siarad â chyrff ymbarél y sector am eu pryderon, ac rydyn ni'n ystyried y rheini wrth feddwl am sut a phryd rydyn ni am alluogi'r sector i ailgychwyn. Er y bydd penderfyniadau ynglŷn â hyn yn seiliedig ar y data a'r dystiolaeth o ran y feirws a'i ledaeniad, rydyn ni'n cydnabod y bydd cynaliadwyedd ariannol lleoliadau unigol yn hollbwysig o ran pryd a sut gallant ddechrau cynyddu eu gweithrediadau. Mae trefniadau ar gyfer y Cynnig Gofal Plant a Chynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws yn y dyfodol hefyd wedi'u cysylltu'n agos â phenderfyniadau sy'n ymwneud ag ailgychwyn y sector, ac rydyn ni'n ymwybodol y bydd angen eglurder ynglŷn â hyn ar leoliadau cyn gynted â phosibl.

Mae penderfyniad Llywodraeth y DU i ymestyn y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws hefyd yn ffactor o ran ei ffordd o feddwl, ac rydyn ni’n pwyso am ragor o fanylion ar sut bydd hyn yn gweithio wrth i wasanaethau ddechrau adfer.  Mae angen dull hyblyg o ran gallu cofrestru staff ar absenoldeb ffyrlo, yn y sector gofal plant yn enwedig.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i’r pwyllgor.

Yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Atodiad

**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: 5 Mai 2020**

Pwyntiau gweithredu a gofnodwyd gan y Clerc:

*Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ysgrifennu at y Pwyllgor unwaith y byddai'r adroddiad ar farwolaethau annisgwyl yn ystod dechrau'r pandemig Covid-19 yng Nghymru ar gael a bod Llywodraeth Cymru wedi cael cyfle i ystyried yr adroddiad.*

• Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb ar wahân.

*Cytunodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu gwybodaeth ar faint o'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru trwy Gronfa Ymateb COVID-19 y Trydydd Sector a Chronfa Gwydnwch y Trydydd Sector a weinyddir gan WCVA sy'n cael ei thargedu at blant a phobl ifanc. Cytunodd y Dirprwy Weinidog hefyd i egluro pa arian oedd ar gael ar gyfer gwasanaethau'r trydydd sector os oedd parhad i'r gwaith presennol a beth yw cyllid ychwanegol.*

• Mae ein Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector newydd gwerth £ 24m yn darparu cefnogaeth yn seiliedig ar anghenion sefydliadau'r Trydydd Sector. Mae swyddogion yn gweithio gyda WCVA i sicrhau bod pob sefydliad ledled Cymru sy'n darparu gwasanaethau hanfodol yn gallu cyrchu'r arian.

• Ar 22 Mai roeddem wedi cefnogi nifer o sefydliadau a nododd eu bod yn cefnogi naill ai plant a theuluoedd neu ieuenctid:

- Cronfa Argyfwng gwasanaethau gwirfoddol - mae 10 sefydliad wedi gwneud cais am £ 425k o gefnogaeth, ac o'r rhain, talwyd 4 i gyfanswm o £ 3238k

- Cronfa Gwydnwch y Trydydd Sector - mae 5 sefydliad wedi gwneud cais am £ 214k

*Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ddarparu cynrychiolwyr gofalwyr i ddarparu'r amserlenni adrodd ar gyfer y grŵp tasg a gorffen a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy'n ystyried anghenion penodol ystod eang o ofalwyr yn ystod ac yn dilyn pandemig Covid-19* .

- O ran yr amserlenni adrodd, rydym wedi sefydlu grŵp bach, y mae ei waith yn brin o amser, gyda'r aelodaeth wedi cytuno â Chynghrair Gofalwyr Cymru. Ei bwrpas yw rhannu pryderon gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr yn ystod y sefyllfa bresennol o ran coronafirws. Mae tri sefydliad gofalwyr cenedlaethol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru sy'n arwain ar gynrychioli gofalwyr ifanc, yn gweithio gyda swyddogion i gytuno ar gamau perthnasol / priodol. Nid oes unrhyw amserlenni adrodd ffurfiol gan bod i'r grŵp gwrdd yn wythnosol i ystyried cynnydd ar weithgaredd y cytunwyd arno, trafod tystiolaeth o bryderon newydd sy'n deillio o adborth gofalwyr, a bydd yn cynorthwyo gyda chynllunio eitemau agenda yn y dyfodol ar gyfer Grŵp Cynghori Gweinidogol y Gofalwyr.

- Y prif fecanwaith ar gyfer ystyried a thrafod materion sy'n effeithio ar bob oed o ofalwr yw'r Grŵp Cynghori Gweinidogol Gofalwyr (MAG) a grëwyd yng nghanol 2018. Mae'n dwyn ynghyd gynrychiolaeth o bob rhan o gyrff statudol, y Comisiynwyr annibynnol,

byrddau iechyd lleol, sefydliadau gofalwyr cenedlaethol, y byd academaidd, Gofal Cymdeithasol Cymru ac eraill, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru. Cadeirydd y grŵp yw Mr Arwel Ellis Owen, a benodwyd ym mis Ionawr 2020. Cyfarfu'r grŵp yn fwyaf diweddar ar 23 Ebrill ac rwy'n bwriadu cynnal cyfarfod arall yn ystod y fisoedd nesaf, a fydd yn cynnwys edrych ar sut y gallwn weithio gyda'r aelodaeth i helpu a chefnogi gofalwyr ifanc ymhellach.

- Cynhaliodd y grŵp Ymgysylltu, a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r MAG Gofalwyr, gyfarfod rhagarweiniol cychwynnol o fwyafrif ei aelodau newydd ganol mis Ionawr. Mae Cylch Gorchwyl y grŵp hwn wedi'i ddrafftio ond nid ydynt wedi cael eu hadolygu'n ffurfiol a'u cytuno gan aelodau. Mae gofalwyr ifanc yn aelodau allweddol o'r grŵp hwn, gyda chynrychiolwyr yn dod o'r Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc, ynghyd â Chyngor Ieuenctid 'Carers Trust Wales'. Mae swyddogion mewn trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru ynghylch cynllunio ar gyfer cyfarfod nesaf y grŵp hwn.

- Yn dilyn ymarfer cynnig cystadleuol yn 2019 dyfarnwyd cyfanswm o £ 8.2m i gefnogi 32 prosiect trwy flwyddyn gyntaf Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol tair blynedd 2020-23. Dyfarnwyd grantiau ar sail ddangosol ar gyfer 2021-22 a 2022-23 a chânt eu cadarnhau pan gytunir ar gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd hynny. O'r 32 prosiect sy'n cael eu cefnogi, nododd naw â gwerth grant o 30% o'r cyllid sydd ar gael, yn eu cais y byddai eu prosiect o fudd i Blant a Phobl Ifanc. Bydd chwe phrosiect arall yn cefnogi Plant a Phobl Ifanc fel rhan o grŵp cleientiaid ehangach ar gyfer eu prosiectau. Mae hyn yn golygu y bydd dros 50% o'r cyllid grant yn cefnogi prosiectau sydd o fudd i Blant a Phobl Ifanc naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol.

- Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid o £ 550,000 yn 2020-21 i ariannu elfen "Cynnig Gweithredol" yr Ymagwedd Genedlaethol at Eiriolaeth Statudol i Blant a Phobl Ifanc (NASA) i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu dull cyson cenedlaethol o eirioli.

- Mae'r gwasanaeth ChildLine yn darparu gwasanaeth cyfrinachol 24 awr am ddim i bobl ifanc nes eu bod yn 19 oed yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfraniad o £ 90,000 yn 2020-21 i gefnogi'r NSPCC i gyflawni'r prosiect ChildLine, sy'n cefnogi agenda strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

- Mae MEIC yn wasanaeth llinell gymorth ddwyieithog gyfrinachol, anhysbys a rhad ac am ddim a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru sy'n darparu gwybodaeth, cyngor defnyddiol ac angen cymorth ac maent ar agor 8am - hanner nos, 7 diwrnod yr wythnos, erbyn ffôn, testun SMS a negeseuon gwib. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid o £ 535,989 i barhau â'r gwasanaeth hyd at Fawrth 2021.

- Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda Pro-Mo Cymru sy'n cyflwyno MEIC i sefydlu a oes angen unrhyw beth i sicrhau bod y gwasanaeth MEIC yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc yng Nghymru yn llawn ar gyfer yr ymateb ar unwaith i Covid-19.

## Atodiad D - Llythyr gan y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn dilyn y sesiwn graffu ar 18 Mai ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed (anfonwyd 27 Mai 2020)

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

---

Julie Morgan AS, Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad | Date: 27 Mai 2020

Pwnc | Subject: **Effaith COVID-19 ar blant sy'n agored i niwed**

Annwyl Julie,

Fel y gwyddoch o'n llythyr at Lywodraeth Cymru dyddiedig 12 Mai, mae effaith COVID-19 ar blant sy'n agored i niwed yn flaenoriaeth i ni o ran ein gwaith craffu.

Ar 18 Mai, clywsom dystiolaeth gan gynrychiolwyr o'r NSPCC, Barnardo's, penaethiaid gwasanaethau plant yng Nghymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Yn ystod y cyfarfod, eglurodd Cadeirydd grŵp penaethiaid gwasanaethau plant Cymru gyfan fod awdurdodau lleol wedi bod yn casglu ac yn cyflwyno data i Lywodraeth Cymru i grynhoi'r sefyllfa o fewn yr awdurdodau lleol. Aeth Cadeirydd y grŵp ymlaen i nodi'r hyn a ganlyn am y data dan sylw:

> "mae o'n gofyn am ein gallu ni i weithredu o fewn y trefniadau presennol, niferoedd y cyfeiriadau sydd yn dod i'n sylw ni, niferoedd y cyfeiriadau diogelu, niferoedd y plant mewn gofal, niferoedd y plant sydd ar y gofrestr diogelu plant, nifer y lleoliadau sydd yn cael eu heffeithio oherwydd COVID-19, a hefyd mae yna gwestiynau yma ynglŷn â'r cohort ôl-ofal yn benodol a sawl un o'r bobl ifanc rheini sydd yn cael profiad anodd yn ariannol neu brofiadau sydd yn arwain at ddigartrefedd."
>
> Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 230], 18 Mai 2020

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

**Hoffai'r Pwyllgor wneud cais i gael gweld y data hyn yn barhaus i helpu i lywio ein gwaith craffu ar y camau sy'n cael eu cymryd i reoli effaith COVID-19 ar ein plant sydd fwyaf agored i niwed.**

Yn ystod y cyfarfod, cyfeiriodd tystion hefyd at bwysigrwydd ystyried effaith Covid-19 ar blant nad oeddent yn cael eu hystyried yn agored i niwed o'r blaen ond sydd bellach o bosibl yn agored i niwed (neu'n agored i niwed yn y dyfodol) oherwydd y pandemig presennol. Mae hwn hefyd yn fater sydd wedi'i godi'n gyson gan y Pwyllgor fel un sy'n peri pryder. **O'r herwydd, byddai'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar pe gallai eich ymateb i'n llythyr dyddiedig 12 Mai gynnwys manylion penodol am y camau rydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod plant nad yw'r gwasanaethau'n ymwybodol ohonynt ond sy'n agored i niwed, neu sydd o bosibl yn agored i niwed yn y dyfodol, yn cael gwybodaeth am y ffyrdd gorau o gael mynediad at gymorth**.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i'r Gweinidog Addysg o ystyried yr effaith a gaiff camau i ofalu am blant sy'n agored i niwed ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i gefnogi addysg a llesiant plant a phobl ifanc.

Cofion cynnes,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Copi: Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad E - Ymateb Llywodraeth Cymru i lythyr y Pwyllgor dyddiedig 27 Mai (cafwyd 30 Mehefin 2020)**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle
Cadeirydd
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Mehefin 2020

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Mai lle gofynnodd y Pwyllgor am fanylion penodol am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod plant nad yw gwasanaethau'n gwybod amdanynt o bosibl ond sy'n agored i niwed, neu a allai ddod yn agored i niwed, yn cael gwybodaeth am sut i gael cymorth.

Rwy'n falch o weld bod nifer y plant agored i niwed sy'n mynychu'r ysgol wedi cynyddu ers i'r cyfyngiadau symud ddechrau. Yn ystod yr wythnos 15 i 19 Mehefin, mynychodd ychydig dros 1,500 o blant agored i niwed yr ysgol, sef 6.3% o'r holl blant sy'n agored i niwed yn unol â'r diffiniad presennol.
Mae awdurdodau lleol wedi ein sicrhau eu bod yn blaenoriaethu cymorth i blant agored i niwed, boed hynny mewn hyb neu gartref yn ystod y cyfnod hwn.

Mae swyddogion yn gweithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, gan ymgynghori â rhanddeiliaid allanol, i ddatblygu amrywiaeth o wybodaeth ac adnoddau er mwyn helpu i nodi achosion o niwed neu gam-drin cudd, hyrwyddo prosesau i roi gwybod am bryderon a chefnogi plant a phobl ifanc i ddatgelu achosion wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Bydd hyn yn cynnwys ymgyrch gyhoeddus, cyngor i ymarferwyr mewn asiantaethau a gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc. Ceir rhagor o fanylion isod: -

- Ar 6 Gorffennaf bydd yr ymgyrch “Gyda'n Gilydd Gallwn Gadw Pobl yn Ddiogel” yn cael ei lansio. Bydd yr ymgyrch yn annog pobl i gysylltu â'u gwasanaethau cymdeithasol lleol neu ffonio 101 os ydynt yn bryderus bod aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog yn wynebu risg o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed. Caiff yr ymgyrch ei chynnal tan 16 Awst a bydd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion ar y radio a hysbysebion digidol i ledaenu'r neges. Bydd y digrifwr, Rhod Gilbert, yn cefnogi'r ymgyrch drwy recordio'r hysbysebion radio a ffilmio ei hun yn siarad am



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bwysigrwydd ffonio'r gwasanaethau cymdeithasol os oes gennych bryder am blentyn, person ifanc neu oedolyn.

- Mae canllaw ymarfer amlasiantaeth wedi cael ei ddatblygu er mwyn helpu ymarferwyr i nodi achosion o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod; rhoi gwybod am bryderon ynghylch diogelu a rheoli datgeliadau gan blant a phobl ifanc. Mae'r canllaw yn cysylltu'n uniongyrchol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru sy'n hyrwyddo ymarfer diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bwriedir cyhoeddi'r canllaw hwn ar 6 Gorffennaf yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidogion a chaiff ei hyrwyddo'n eang gan y Byrddau Diogelu rhanbarthol a thrwy rwydweithiau penodol i'r sector. Wrth inni symud ymlaen i'r cam adfer, byddwn yn ymateb i dystiolaeth mewn perthynas â'r angen am unrhyw gymorth pellach ar gyfer ymarfer diogelu wrth inni gytuno ar ffyrdd newydd o weithio.

- Yn ogystal, rydym yn bwriadu cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer plant a phobl ifanc i roi gwybod iddynt ei bod yn 'ddiogel rhoi gwybod', beth fydd yn digwydd os byddant yn datgelu achos o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod a'u sicrhau y byddan nhw a'u teuluoedd yn cael cymorth a chefnogaeth. Bydd y wybodaeth hon yn briodol i oedran y plant a'r bobl ifanc, a chaiff y wybodaeth ei dylunio mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb plant a phobl ifanc o oedrannau gwahanol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu'n uniongyrchol gyda swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Phrifysgol Caerdydd. Rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid allanol er mwyn llywio'r gwaith hwn. Rydym yn nodi cyfleoedd i gynnwys plant a phobl ifanc yn uniongyrchol yn y gwaith o gynhyrchu deunyddiau a gwneud penderfyniadau am y ffordd orau o gyfleu negeseuon. Rydym yn gweithio i gwblhau'r adnoddau hyn i'w cyhoeddi ar 7 Medi. Byddwn yn cytuno ar gynllun cyfathrebu ar y cyd â phartneriaid er mwyn sicrhau bod y wybodaeth hon yn cyrraedd cynifer o blant a phobl ifanc â phosibl.

O ran eich cais am fynediad parhaus at ddata; mae'r ddogfen 'Gwiriadau Gofal Cymdeithasol ar gyfer COVID-19 – Gwiriadau Plant a Theuluoedd 8- 24 Mehefin 2020' ar gael yn Atodiad 1. Byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael ei ychwanegu at restr ddosbarthu'r ddogfen data gwiriadau. Mae'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cais i Lywodraeth Cymru am y data hyn yn golygu mai dim ond er mwyn i'r Pwyllgor graffu ar fesurau sy'n cael eu cymryd i reoli effaith COVID-19 ar blant agored i niwed y caiff y wybodaeth ei rhannu. Ni ddylid defnyddio'r data at unrhyw ddiben arall heb gael caniatâd perchennog y data ymlaen llaw. Mae hyn yn golygu na ddylai'r data gael eu rhannu na'u cyhoeddi mewn unrhyw ffordd heb gael caniatâd ymlaen llaw. Os bydd angen i bobl ychwanegol weld y data, dylid e-bostio Llywodraeth Cymru er mwyn cael caniatâd. Ar gyfer pob ymholiad ac i ofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r data hyn y tu allan i'r diben gwreiddiol a nodwyd, e-bostiwch owen.davies005@gov.wales.

Hyderaf y bydd y wybodaeth bellach hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

**COVID-19**
**Gwiriadau Gofal Cymdeithasol Wythnosol - Plant a Theuluoedd**
**Gwiriadau 8 - 24 Mehefin 2020**

**Cyfanswm Nifer yr Ymatebwyr - 22**

| **1. Sut y byddech yn dosbarthu eich gallu i weithredu ar hyn o bryd:** | | |
|---|---|---|
| GWYRDD | Mae rhai aelodau o'r staff yn absennol, ond rydym yn llwyddo i ddarparu'r rhan fwyaf o wasanaethau. | **100%** |
| OREN | Mae aelodau o'r staff yn absennol ac mae hyn yn effeithio rywfaint ar rai gwasanaethau, ond rydym yn gallu darparu gwasanaethau o hyd. | **0%** |
| COCH | Mae cryn dipyn o'r staff yn absennol a dim ond gwasanaethau hanfodol y gallwn eu darparu. | **0%** |

| **2. Faint o gysylltiadau rydych chi wedi'u cael yn y gwasanaethau plant yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?** | 3,791 ↑ |
|---|---|
| Ydy'r ffigur hwn yn uwch, yn rhywbeth tebyg neu'n llai na'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn? | Nododd **36%** ei fod yn uwch<br>Nododd **50%** ei fod yn llai<br>Nododd **14%** nad oedd unrhyw newid<br>Nid oedd **0%** yn gallu ateb |
| Faint o'r uchod oedd yn ymwneud â mater diogelu? | 887 ↑ |
| Ydy'r ffigur hwn yn uwch, yn rhywbeth tebyg neu'n llai na'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl fel arfer ar yr adeg hon o'r flwyddyn? | Nododd **27%** ei fod yn uwch<br>Nododd **41%** ei fod yn llai<br>Nododd **23%** nad oedd unrhyw newid<br>Nid oedd **9%** yn gallu ateb |

| **3. Faint o blant sy'n derbyn gofal yn eich awdurdod lleol ar hyn o bryd?** | 7,264↔ |
|---|---|
| Ydy'r ffigur hwn wedi cynyddu, aros yr un peth neu leihau yn ystod y 7 diwrnod diwethaf? | Nododd **45%** ei fod wedi cynyddu<br>Nododd **41%** ei fod wedi lleihau<br>Nododd **14%** nad oedd unrhyw newid |

| **4. Faint o blant yn eich awdurdod lleol sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ar hyn o bryd?** | 3,100 ↔ |
|---|---|
| Ydy'r ffigur hwn wedi cynyddu, aros yr un peth neu leihau yn ystod y 7 diwrnod diwethaf? | Nododd **59%** ei fod wedi cynyddu |

| | |
|---|---|
| | Nododd **36%** ei fod wedi lleihau<br>Nododd **5%** nad oedd unrhyw newid |

| | |
|---|---|
| **5. Faint o leoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd wedi chwalu oherwydd achos posibl o COVID-19 neu achos a gadarnhawyd yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?** | 0↓ |
| Faint o'r rhain oedd mewn lleoliad maeth? | 0 |
| Faint o'r rhain oedd mewn lleoliad preswyl? | 0 |
| Faint o'r rhain oedd yn aros gyda theulu neu ffrindiau? | 0 |

| **6. Ydych chi'n gallu parhau i gysylltu â'r plant hynny y mae angen gofal a chymorth arnynt ar hyn o bryd?** | | |
|---|---|---|
| GWYRDD | Ydyn, mae gennym drefniadau i gysylltu â'r holl blant y mae angen gofal a chymorth arnynt, naill ai yn bersonol neu drwy ddefnyddio technoleg. | **86%** |
| OREN | Nid ydym yn cwrdd ag unrhyw blant wyneb yn wyneb oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol ac rydym yn cynnal ein holl fusnes yn electronig lle bo hynny'n bosibl. Mae'n bosibl y bydd hyn wedi effeithio ar rai pethau o ganlyniad. | **14%** |
| COCH | Rydym wedi gwneud trefniadau i gysylltu â'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yn unig ar hyn o bryd. | **0** |

| **7. Ydy eich gweithwyr cymdeithasol a'ch cynghorwyr personol yn gallu parhau i gysylltu â phlant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal ar hyn o bryd?** | | |
|---|---|---|
| GWYRDD | Ydyn, mae gennym drefniadau i gysylltu â'r holl blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, naill ai'n bersonol neu drwy ddefnyddio technoleg. | **91%** |
| OREN | Nid ydym yn cwrdd ag unrhyw bobl ifanc wyneb yn wyneb oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol ac rydym yn cynnal ein holl fusnes yn electronig lle bo hynny'n bosibl. Mae'n bosibl y bydd hyn wedi effeithio ar rai pethau o ganlyniad. | **9%** |
| COCH | Rydym wedi gwneud trefniadau i gysylltu â'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn unig ar hyn o bryd. | **0** |

| | |
|---|---|
| **8. Faint o bobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal sydd wedi nodi eu bod yn dioddef caledi ariannol yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?** | 32 ↓ |
| Ydy'r ffigur hwn wedi cynyddu, aros yr un peth neu leihau yn ystod y 7 diwrnod diwethaf? | Nododd **23%** ei fod wedi cynyddu<br>Nododd **36%** ei fod wedi lleihau<br>Nododd **41%** nad oedd unrhyw newid |

| | |
|---|---|
| **9. Faint o bobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal sydd wedi rhoi gwybod am broblemau gyda thai neu lety yn ystod y 7 diwrnod diwethaf?** | 15 ↓ |
| Ydy'r ffigur hwn wedi cynyddu, aros yr un peth neu leihau yn ystod y 7 diwrnod diwethaf? | Nododd **14%** ei fod wedi cynyddu<br>Nododd **27%** ei fod wedi lleihau<br>Nododd **59%** nad oedd unrhyw newid |

## Atodiad F - Llythyr gan y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn dilyn y sesiwn graffu ar 9 Mehefin ar effaith Covid-19 ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc (anfonwyd 3 Gorffennaf 2020)

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
Welsh Parliament
**Children, Young People and Education Committee**

Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Dyddiad: 3 Gorffennaf 2020

Pwnc: **Effaith Covid-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc**

Annwyl Weinidogion,

Mae effaith Covid-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc wedi bod yn faes craffu â blaenoriaeth i ni yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus presennol. Er ein bod ni'n cydnabod ei bod yn ymddangos bod plant a phobl ifanc yn llai tueddol o gael eu heffeithio gan y feirws nag oedolion, nid oes llawer o amheuaeth bod effeithiau ehangach Covid-19 - a'r mesurau a gymerwyd i'w reoli - wedi effeithio'n sylweddol ar eu bywydau.

Ar 9 Mehefin cawsom dystiolaeth gan gynrychiolwyr y Colegau Brenhinol, y trydydd sector, a seicoleg glinigol ar **effeithiau Covid-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc**. Yn unol â'n dull o graffu ar Covid-19, mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn tynnu sylw at y meysydd rydym yn gofyn am fanylion pellach amdanynt a/neu sicrwydd yn eu cylch ar hyn o bryd yn y pandemig. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr o'r materion sy'n bwysig yn ein golwg ni; yn hytrach, ein bwriad yw rhoi adborth i Lywodraeth Cymru, ar fyrder, ar y meysydd sydd angen rhagor o sylw yn ein barn ni, a darparu goruchwyliaeth effeithiol ac amserol o'r materion sy'n dod i'r amlwg.

Crynhodd Dr David Tuthill, ar ran y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, effaith Covid-19 ar iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc fel a ganlyn:

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPPIA@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCYPE@senedd.wales
0300 200 6565

> “Children are probably unlikely to be directly affected by the virus with physical illness—that's uncommon in terms of severe illness, but as an inflammatory condition, which we see, but it's very uncommon. What they have been affected by quite greatly is, if I could call it, collateral damage—their schools have been closed, their clubs have been shut, they can't socialise. All those things have affected children, and they're very anxious, because there's a lot of worry about coronavirus, which they're hearing about—their grandparents might have died, or they're hearing that thousands of people have died.” *(Cofnod y Trafodion, paragraff 7, 9 Mehefin 2020)*

Rydym yn awyddus i sicrhau na chollir golwg ar yr ymagwedd hawliau plant yn y broses o reoli'r pandemig hwn, nac yn ein gwaith craffu fel Senedd. O'r herwydd, rydym wedi gofyn am ddadl ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc. Os cytunir ar y cais hwnnw, bydd y llythyr hwn, a gohebiaeth flaenorol rhyngom, yn sail i'r ddadl honno, gan ein bod o’r farn y dylai holl Aelodau'r Senedd gael cyfle i drafod y materion hyn, cyn toriad yr haf, fel mater o flaenoriaeth.

Cofion gorau,

**Lynne Neagle AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

**ATODIAD**

## 1. Cau ysgolion

Er y cydnabuwyd bod cau ysgolion wedi bod yn rhan angenrheidiol o reoli'r pandemig, roedd consensws clir ymhlith tystion yn ein cyfarfod ar 9 Mehefin bod effaith peidio â bod yn yr ysgol ar lesiant llawer o blant yn sylweddol. Mae gwaith academaidd diweddar a sylw yn y cyfryngau wedi ymdrin yn eang â'r effaith negyddol ar lesiant, cyrhaeddiad addysgol a chyfyngu difreintedd plant. Mae Comisiynydd Plant Cymru hefyd wedi tynnu sylw at effaith negyddol y pandemig ar hawl plentyn i gael addysg. Rhestrir hawl plentyn i gael addysg yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac, yn ei thro, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru drwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 roi sylw dyledus i'r Confensiwn.

Yng ngoleuni hyn, credwn y dylem roi blaenoriaeth i sicrhau'r cyswllt mwyaf diogel, wyneb yn wyneb â phlant a phobl ifanc yn ystod yr haf eleni. Mae'n destun gofid i ni nad oedd modd cytuno â’r undebau llafur ar y dewis roedd Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio, sef cymryd gwyliau cynharach yn yr haf a dychwelyd ym mis Awst. Rydym hefyd yn siomedig iawn - er gwaethaf gwaith caled llawer o arweinwyr ysgolion, athrawon a staff – nad yw’r bedwaredd wythnos a gynigiwyd i ysgolion ailgydio, dal i fyny a pharatoi plant ar gyfer tymor yr hydref wedi dwyn ffrwyth mewn sawl rhan o Gymru.

**Gan gydnabod y posibilrwydd real iawn o ail don o’r coronafeirws yn nhymor yr hydref, mae'n hollbwysig bod gwersi yn cael eu dysgu yn sgil yr heriau a wynebwyd yn ddiweddar wrth geisio cytuno ar drefniadau ar gyfer dychweliad ein plant i'r ysgol. Rhaid i lesiant plant fod wrth wraidd penderfyniadau sy'n ymwneud ag ysgolion, ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru a'r sector i weithio gyda'i gilydd i addasu a bod yn feiddgar ac yn arloesol yn wyneb y pandemig byd-eang hwn. Credwn, o fis Medi, bod yn rhaid i blant ledled Cymru gael cyswllt o ansawdd uchel â'u hathrawon yn gyson, a bod yn rhaid rhoi pob cyfle posibl i holl blant Cymru ddatblygu eu haddysg. Bydd hyn hefyd yn galluogi ysgolion i chwarae eu rhan hanfodol yn yr ymagwedd system gyfan at ategu iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.**

Yn ein hadroddiad **Cadernid meddwl** pwysleisiwyd rôl hanfodol ysgolion yn iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Mae hyn yn wir yn awr yn fwy nag erioed. Cyn dyfodiad y pandemig hwn, roedd y canllawiau yr oeddem wedi galw amdanynt ar ymagwedd ysgol gyfan at ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol yn cael eu paratoi. **Credwn y dylid cyhoeddi'r canllawiau hyn ar gyfer ymgynghori fel mater o flaenoriaeth, er mwyn sicrhau y gall cymorth ar gyfer iechyd emosiynol a meddyliol ein plant fod yn nodwedd ganolog o'u haddysg.**

## 2. Cydnabod amrywiaeth materion llesiant ac iechyd meddwl

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod llawer o'r teimladau mae pobl ifanc wedi bod yn eu profi, fel gorbryder, straen ac unigrwydd, yn ymateb naturiol i'r risgiau a'r heriau a berir gan y pandemig a'r mesurau a gymerir i'w reoli. Pwysleisiodd Samariaid Cymru:

> "What we don't want to do is to medicalise a perfectly reasonable, natural response to the challenges that young people are experiencing, including the loneliness that we know is quite a significant part of it, and they're going to be impacted by the situation of their parents and their wider family, of course. So, I think it's a very important message, and I don't think it's clear enough, really, that actually the measure of the distress people are feeling shouldn't just be measured through how many young people tip into mental health problems that are defined as such—important though that is to be aware of that danger. But it's also responding to distress in the wider population of young people, and I think it just really underscores this point about building emotional resilience for every child and every school, skilling up every teacher in every school, around a compassionate response to the distress in the young people they might encounter."[1]

Ar ben arall y sbectrwm difrifoldeb, pwysleisiodd Samariaid Cymru ei bod yn rhy gynnar i ddata ddangos pa effaith mae'r pandemig yn ei chael ar gyfraddau hunanladdiad. Fodd bynnag, rhybuddiodd yr elusen bod angen monitro'n agos y ffactorau sy'n cyfrannu at gyfraddau hunanladdiad a risg hunanladdiad - fel sioc economaidd sylweddol, unigrwydd ac arwahanrwydd.

**Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod angen sicrhau cydbwysedd pwysig rhwng cydnabod a chynorthwyo yn ystod achosion o broblemau iechyd meddwl a pheidio â throi ymatebion naturiol i bandemig brawychus yn gyflyrau meddygol. Mae'n amlwg pa mor bwysig yw hi bod plant a phobl ifanc yn gwybod at bwy y gallant droi am gymorth, ac mae hyd yn oed yn fwy arwyddocaol pan fydd lleoedd cyfarwydd, fel ysgolion a meddygfeydd, yn teimlo'n llai hygyrch. Yn ein barn ni, mae hyn yn dangos ymhellach bwysigrwydd ein hargymhellion yn adroddiad Cadernid Meddwl sy'n ymwneud â darparu cydnerthedd emosiynol a chymorth ymyriadau cynnar, a mynd i'r afael â'r bylchau mewn gwasanaethau i'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n anghymwys ar gyfer gwasanaethau CAMHS ond sy'n methu dod o hyd i gymorth therapiwtig neu gymorth 'lefel is' addas – y garfan a elwir yn 'ganol coll'. Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i flaenoriaethu gweithredu ein hargymhellion yn Cadernid Meddwl, ac rydym yn bwriadu dychwelyd at ein gwaith dilynol ar yr ymchwiliad hwnnw cyn gynted â phosibl.**

## 3. Data

Rydym yn cydnabod bod yr amgylchiadau digynsail a ddaeth i ganlyn pandemig Covid-19 wedi golygu bod angen newid adroddiadau perfformiad arferol er mwyn lleihau'r baich ar fyrddau iechyd. Nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu'r Grŵp Achosion Iechyd Meddwl i

[1] Cofnod y Trafodion, paragraff 142, 9 Mehefin 2020.

gynnal goruchwyliaeth o wasanaethau iechyd meddwl yn ystod y pandemig, gyda byrddau iechyd yn adrodd yn wythnosol ar allu a galluedd gwasanaethau iechyd meddwl. Serch hynny, dywedodd Mind Cymru wrthym:

> "…ensuring that the data collection around access to services, referrals, where they're coming from, and having that broken down by protected characteristics as well, in terms of ethnicity and things like that […] is really important, so that we get an idea of where the pressures are on the system, as well as how those pressures are being coped with at any given time […] the data around what's happening is probably not in the best possible position for us to be able to say exactly what's going to happen in the coming months."[2]

**Rydym yn awyddus i sicrhau bod darlun clir a thryloyw o nifer y plant a phobl ifanc sy'n cyrchu gwasanaethau i ategu eu hiechyd corfforol a meddyliol ar gael i'r cyhoedd. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y data hwn ar gael mewn modd amserol a hygyrch, er mwyn sicrhau y gellir craffu'n llawn ar effaith y pandemig a'r mesurau i'w reoli.**

## 4. Seilwaith digidol

Mae pwysigrwydd defnyddio technoleg i alluogi ein poblogaeth, yn hen ac ifanc, i ymdopi yn ystod y pandemig hwn wedi ei gofnodi'n glir. Yn achos plant a phobl ifanc, rydym yn croesawu'r buddsoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru i alluogi mynediad at offer a band eang. **Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fonitro faint o blant sydd ar hyn o bryd heb fynediad at y seilwaith digidol sy'n angenrheidiol i gael mynediad at eu gwasanaethau addysg, iechyd a chymorth. Byddem yn croesawu manylion pellach am y trefniadau monitro hyn, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fesur faint o blant sy'n elwa ar y buddsoddiad a wnaed.**

Er ein bod ni'n cydnabod y cyfraniad sylweddol a buddiol mae mynediad digidol o bell at wasanaethau a chymorth wedi ei wneud yn ystod y pandemig hwn, byddem yn rhybuddio rhag gorddibynnu arno. **Mewn llawer o amgylchiadau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl, mae rhyngweithio wyneb yn wyneb yn parhau i fod yn rhan hanfodol o gymorth. Rhaid i blant a phobl ifanc fod wrth wraidd gwaith dylunio gwasanaethau, a rhaid cydnabod bod anghenion a hoffterau unigolion yn amrywio - nid yw un ateb yn addas i bawb. Rydym yn gofyn am sicrwydd bod cynlluniau ar waith ar gyfer dychwelyd yn ddiogel at wasanaethau wyneb yn wyneb lle mai hynny yw'r dewis mwyaf priodol, a bod egwyddorion clir ar waith i asesu lle gallai parhad cymorth digidol o bell fod yn fuddiol.**

---

[2] Cofnod y Trafodion, paragraff 158, 9 Mehefin 2020.

## 5. Gallu gweithwyr iechyd proffesiynol i gynorthwyo plant a phobl ifanc

Yn ystod ein sesiwn ar 9 Mehefin nododd nifer o weithwyr iechyd proffesiynol fod staff y GIG wedi cael eu hadleoli o wasanaethau plant a phobl ifanc er mwyn darparu'r ymateb brys i Covid-19. Disgrifiwyd eirioli dros gadw adnoddau ar gyfer iechyd meddwl yn ystod pandemig fel 'brwydr galed':

> "…there was that period at the beginning when working in health meant that you were directed towards COVID unless it was considered life or limb, and that was really hard."[3]

Rydym yn cydnabod, yn wyneb pandemig sy'n datblygu'n gyflym, bod gwasanaethau cyhoeddus wedi wynebu amgylchiadau digynsail o ran cynllunio a defnyddio adnoddau. Rydym yn cymeradwyo'r ymateb ar draws gwasanaethau i ymateb i'r argyfwng, ac i flaenoriaethu'r rhai mwyaf anghenus. **Rydym yn pryderu, fodd bynnag, er bod anghenion iechyd corfforol y boblogaeth o reidrwydd yn flaenoriaeth yng nghamau cynnar y pandemig hwn, bod gwasanaethau i ategu iechyd meddwl a llesiant plant yn agored i'r risg o ddad-flaenoriaethu.**

Rydym yn ymwybodol, ym mis Ebrill 2020, bod Dr Andrew Goodall wedi yn ysgrifennu at fyrddau iechyd yn nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru y dylai gwasanaethau iechyd meddwl barhau i ddarparu 'ymatebion diogel a chynaliadwy' i unigolion sydd angen mynediad at gymorth iechyd meddwl yn ystod y cyfnod hwn. Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd i'r Pwyllgor hwn hefyd ar 5 Mai 2020 bod gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys y rhai ar gyfer plant a phobl ifanc, yn wasanaethau hanfodol ac na ddylid eu lleihau yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu'r dystiolaeth a glywsom gan ymarferwyr rheng flaen ynghylch adleoli staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau plant a phobl ifanc. **Gan gydnabod y posibilrwydd real iawn o ail don o'r coronafeirws, mae angen i Lywodraeth Cymru bennu'r camau clir y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl plant yn cael eu hamddiffyn er mwyn osgoi'r canlyniadau hirdymor hir a fyddai'n dilyn yn sgil diffyg cymorth arbenigol.**

Rydym yn croesawu hyblygrwydd llawer o wasanaethau - yn y gwasanaeth iechyd a'r trydydd sector – wrth addasu i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. **Roedd gennym ddiddordeb arbennig mewn dysgu am y camau a gymerwyd mewn rhai meysydd i alluogi rhieni i gyfeirio at gyfleusterau pwynt mynediad unigol ar gyfer CAMHS. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion gan Lywodraeth Cymru ynghylch lle mae'r modelau hyn ar waith, ac rydym o'r farn y dylid eu gwerthuso ac y dylid ystyried eu defnyddio ym mhob ardal bwrdd iechyd.**

Amlygodd tystion yr anhawster y gall pobl ifanc ei wynebu wrth gyrchu gwasanaethau gofal mewn argyfwng sy'n briodol i'w hoedran. Awgrymodd Mind Cymru fod angen gwaith i nodi sut beth ddylai'r model gofal hwn fod:

[3] Cofnod y Trafodion, paragraff 306, 9 Mehefin 2020.

> "If any young person is attending a service, desperate for help, that service should be there. There's nothing in any guidance or any legislation that has suggested that those services shouldn't be there, but I think it just shows (…) the gap between services being there and sometimes the reality of trying to access those services, and trying to access them in a way that helps the young person."[4]

Dywedodd Cymdeithas Seicolegol Prydain wrthym, er bod cwymp sylweddol mewn atgyfeiriadau hunan-niweidio yn gynharach yn y pandemig, mae timau argyfwng a gwasanaethau damweiniau ac achosion brys bellach yn gweld cynnydd mewn achosion a hefyd bod ymddygiad hunan-niweidio yn dod yn fwy peryglus:

> "Actually, they've noticed more boys than usual presenting with self-harm and the crisis team, and they definitely feel it's getting busier, and also that it's getting riskier. So, maybe that children and young people who are struggling with those thoughts and feelings, perhaps because they're at home and under the spotlight of their parents, are maybe then using more extreme measures or extreme methods to act out on some of those thoughts and feelings."[5]

**Gofynnwn am fanylion pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch:**

- **y camau y mae wedi eu cymryd i fonitro'r cymorth gofal mewn argyfwng sydd wedi bod ar gael i blant a phobl ifanc ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud;**
- **y trefniadau sydd ganddi ar waith i sicrhau bod cymorth gofal mewn argyfwng i blant a phobl ifanc ar gael i'r holl blant a phobl ifanc sydd ei angen wrth i'r pandemig ddatblygu.**

## 6. Effaith ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc

Er bod y pandemig a'r camau a gymerwyd i'w reoli wedi effeithio ar bob plentyn ac unigolyn ifanc, mae'n amlwg bod grwpiau penodol o blant yn fwy agored i'r effeithiau hyn. Yn ystod ein sesiwn ar 9 Mehefin, cawsom ein rhybuddio:

> "There are going to be young people whose experience of lockdown is going to be quite traumatic and difficult, in terms of those from **black and ethnic minority populations**, with the increased level of fear, potentially, in those communities of what the virus will do and how it will impact on them. That needs to be recognised […] Some **children of front-line staff** will have had really quite a worrying time period where maybe they're not seeing a parent as often […] there may well be groups, during this period, that are really impacted, and are impacted in a different way. There needs to be some thought about how those groups of young people are supported

[4] Cofnod y Trafodion, paragraff 183, 9 Mehefin 2020.
[5] Cofnod y Trafodion, paragraff 291, 9 Mehefin 2020.

appropriately so that they can feel that they are moving forward at the same rate as their peers, but may need extra support."[6]

Cyfeiriwyd at yr effaith ar **blant sy'n cysgodi** hefyd, gyda'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn nodi:

> "…the shielding advice that's been given out is predominately adult-based, and for many, many children, it's been completely inappropriate."[7]

Mewn ymateb i gwestiwn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan unigolyn ifanc ynghylch cau parciau, ymatebodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu bod **plant difreintiedig** yn debygol o fod yn fwy difreintiedig fyth o ganlyniad i gamau i reoli'r cyfyngiadau symud. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd ganddynt fynediad at ardd, a gyda meysydd chwarae wedi cau bydd eu cyfleoedd i ymarfer corff a chwarae yn yr awyr agored yn fwy cyfyngedig. (Cofnod y Trafodion, paragraff 57, 9 Mehefin 2020). Fel y nodwyd uchod, mae gennym bryderon ynghylch gallu pob plentyn ac unigolyn ifanc i gael mynediad at dechnoleg ddigidol. Mae'n bosibl y bydd hyn nid yn unig yn effeithio ar eu hiechyd, gyda rhagor o wasanaethau'n cael eu darparu o bell, ond rydym hefyd yn poeni am y bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol yn ehangu ymhellach os nad yw plant o gefndiroedd mwy difreintiedig yn gallu cymryd rhan mewn dysgu ar-lein.

**Rydym yn cydnabod bod y coronafeirws wedi effeithio ar bob plentyn ac unigolyn ifanc, ond rydym yn arbennig o bryderus am ei effaith ar grwpiau penodol, gan gynnwys plant du a lleiafrifoedd ethnig, plant sy'n cysgodi a phlant difreintiedig. Mae ein llythyrau blaenorol hefyd wedi cyfeirio at effaith y pandemig ar blant ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r rhai mewn addysg heblaw yn yr ysgol. Byddem yn croesawu sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut mae'r grwpiau penodol hyn - ac unrhyw rai eraill sy'n cael eu hystyried yn arbennig o agored i niwed o ganlyniad i fesurau i reoli'r pandemig - yn cael eu nodi a'u cynorthwyo'n benodol o ran eu hiechyd corfforol a meddyliol. Byddem hefyd yn croesawu ymateb i farn y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant nad oes unrhyw reswm i blentyn nad yw o dan ofal ymgynghorydd ysbyty gael ei gysgodi.**

## 7. Cyllid

Ar 27 Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2020-21. Mae hon yn nodi, o'r £114 miliwn o gyllid sydd wedi ei addasu at ddibenion gwahanol mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn ategu camau i ymateb yn uniongyrchol i'r pandemig, mae £7 miliwn wedi ei ailbennu o'r Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Mewn ymateb i gwestiynau am y cyllid hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar 4 Mehefin 2020, eglurodd swyddog y Gweinidog:

[6] Cofnod y Trafodion, paragraff 240, 9 Mehefin 2020.
[7] Cofnod y Trafodion, paragraff 55, 9 Mehefin 2020.

> “The £7 million that you're referring to was funding that we'd allocated for this financial year in support of our mental health delivery plan. So there's a set of priorities articulated in that plan, which was published back in January, and that £7 million was to help health boards make progress on those areas set out. That included things like perinatal mental health, children and adolescent mental health services, neurodevelopmental services and the like.
>
> With the advent of Covid, while we absolutely still want to see improvements in our mental health services around those priority areas, we recognise that that funding would be needed to maintain and enhance the mental health response to Covid, so that £7 million is still within the mental health budget, but has been, if you like, repurposed to support mental health services more generally in their response to Covid.”[8]

**Mae'r Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl yn rhan hanfodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Yn dilyn ein hadroddiad Cadernid Meddwl, fe wnaeth Llywodraeth Cymru iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol benodol. Er ein bod yn cydnabod yr angen i ailbennu rhywfaint o weithgarwch a chyllid yn ystod y pandemig, rhaid i blant a phobl ifanc beidio â bod ar eu colled o ganlyniad i addasiadau i gyllidebau. Gofynnwn am dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru bod digon o arian ar gael i flaenoriaethu'r trawsnewid gwasanaethau sy'n ofynnol ym maes iechyd meddwl plant yng Nghymru ochr yn ochr â'r ymateb i'r pandemig hwn.**

[8] Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Cofnod y Trafodion, paragraffau 14-15, 4 Mehefin 2020.